



**Wales Centre for Public Policy**  
**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

# **Beth mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd yn ei feddwl o ofal?**

**Megan Park, Suzanna Nesom, a Helen Hodges**

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Ionawr 2020

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gynorthwyo gweinidogion ac arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus i gael ac i weithredu ar dystiolaeth annibynnol gadarn ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio. Mae'r Ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno ac i ddefnyddio tystiolaeth bresennol ac i ganfod bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar lywodraeth ond mae'n cydweithio'n glos â llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu meddwl gwreiddiol ynglŷn â sut i roi sylw i heriau polisi mewn iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Helpu Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ganfod tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gael gafael ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; a
- Defnyddio'i gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaeth llunio a gweithredu polisi.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn gwella gallu ymchwilwyr i wneud ymchwil sy'n cael effaith sy'n berthnasol i bolisi.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn [www.wcppp.org.uk](http://www.wcppp.org.uk)

## Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, sydd â'r nod o feithrin cysylltiadau rhyngwladol cryf ond sy'n pwysleisio ei hymroddiad i Gymru.



Economic and Social Research Council

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England ynghyd i gynyddu cyfraniad pob cyngor ac i greu'r amgylchiadau gorau i alluogi ymchwil ac arloesi i ffynnu.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Crynodeb

- Mae gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ogystal â'u teuluoedd bersbectif unigryw o'r system ofal ac mae ymgorffori eu safbwyntiau hwy mewn prosesau penderfynu yn golygu ystod o fuddiannau ehangach i gomisiynwyr.
- Hefyd, mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi mabwysiadu dull gweithredu Hawliau Plant sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn ôl y dull hwn rhaid i gyrff cyhoeddus holi barn plant a phobl ifanc a'u hystyried mewn prosesau penderfynu.
- Yn y cyd-destun hwn, mae corff cynyddol o lenyddiaeth wedi datblygu sy'n adrodd ar farn plant a phobl ifanc am y system ofal gyda'r nod o lywio polisïau ac arferion gweithio. Mae llenyddiaeth fwy cyfyngedig hefyd sy'n cyflwyno safbwyntiau rhieni biolegol.
- Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r llenyddiaeth hon ac mae'n nodi'r canfyddiadau allweddol canlynol i gomisiynwyr yng Nghymru.
- Nodwyd ansefydlogrwydd lleoliadau fel problem allweddol gan blant a phobl ifanc. Er bod llawer o'r achosion o symud o un lleoliad i un arall yn angenrheidiol, gallant achosi teimlad o drallod ac o fod yn ynysig yn ogystal ag amharu ar fynediad at wasanaethau a rhwydweithiau cymorth.
- Yn ychwanegol at amlder symudiadau, gall rheoli symud rhwng lleoliadau hefyd achosi anawsterau ac mae plant a phobl ifanc wedi awgrymu gwelliannau fel darparu mwy o wybodaeth am leoliadau newydd.
- Nid symud o un lleoliad i un arall yw'r unig ffynhonnell ansefydlogrwydd i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Gall ansefydlogrwydd gael ei achosi gan drosiant staff a newidiadau mynych i'r grŵp cymheiriaid o fewn lleoliadau. Mae plant a phobl ifanc wedi cynnig gwelliannau i'r broses trosglwyddo staff.
- Mae rhesymau da dros gynnwys plant a phobl ifanc a'u rhieni biolegol pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud, yn ogystal ag enghreifftiau o ymarfer cyfranogol ledled y DU. Fodd bynnag, mae pryder y gall cyfranogiad fod yn arwynebol ac mae'n ymddangos bod llawer o blant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu dadrymuso.
- Mae plant a phobl ifanc wedi awgrymu camau ymarferol i roi sylw i lawer o'r materion hyn, gan ddangos bod ganddynt rôl flaenllaw i wella comisiynu yng Nghymru, ac yn y DU gyfan.

# Cynnwys

<b>Crynodeb</b>	<b>3</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>6</b>
<b>Barn plant a phobl ifanc</b>	<b>7</b>
<b>Cyfranogi a chyfathrebu</b>	<b>8</b>
Pam y mae cyfranogi'n bwysig	8
Sut y gellir cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau am eu gofal	9
Heriau	11
Beth mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn ei feddwl am gyfranogiad?	11
<b>Sefydlogrwydd lleoliadau</b>	<b>14</b>
<b>Llesiant</b>	<b>17</b>
Teimlo eu bod neu'n cael eu trin yn wahanol	17
Diogelwch	18
Cyfleoedd allgwricwlar	18
<b>Perthnasoedd</b>	<b>18</b>
Gweithwyr cymdeithasol	19
Gofalwyr maeth a gofalwyr mewn cartrefi preswyl	20
Teuluoedd biolegol	21
Plant a phobl ifanc eraill	21
<b>Ymwybyddiaeth o agweddau ariannol comisiynu</b>	<b>22</b>
<b>Barn rhieni biolegol</b>	<b>23</b>
<b>Gweithwyr cymdeithasol</b>	<b>23</b>

<b>Cynnwys mewn penderfyniadau</b>	<b>24</b>
<b>Cymorth</b>	<b>26</b>
<b>Casgliad</b>	<b>28</b>
<b>Cyfeiriadau</b>	<b>30</b>
<b>Atodiad 1</b>	<b>36</b>
<b>Atodiad 2</b>	<b>41</b>
Manylion am yr Awduron	43

# Cyflwyniad

Mae perygl y gall ymchwil am y system gofal plant anwybyddu barn plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a'u teuluoedd biolegol. Mae'r adolygiad llenyddiaeth hwn yn ymdrech i edrych ar y broses gomisiynu yn seiliedig ar brofiad y grwpiau hyn ohoni, gan ystyried eu profiadau o'r system ofal. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys trosolwg byr o arferion cyfranogol yn system ofal y DU.

Mae'r adolygiad llenyddiaeth hwn yn un o gyfres o adroddiadau sy'n rhan o waith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru sy'n ailedrych ar gomisiynu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Ei nod yw ystyried y cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Beth yw'r sefyllfa gyfredol yn y ddarpariaeth lleoliadau maethu a gofal preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru?
2. Beth yw profiad plant a'u teuluoedd o gomisiynu gofal?
3. Beth allwn ni ei ddysgu o'r modd y mae darpariaeth lleoliadau'n cael ei rheoli'n rhyngwladol?

Mae'r adolygiad llenyddiaeth hwn yn helpu i roi sylw i ail gwestiwn yr ymchwil sy'n edrych ar y canlynol:

- Pam ddylem ni ystyried barn plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, a'u rhieni biolegol?
- Beth yw profiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, a'u rhieni biolegol, o'r system ofal a beth mae hyn yn ei olygu i gomisiynwyr?

# Barn plant a phobl ifanc

Mae gan blant a phobl ifanc yn y system ofal bersbectif gwahanol o'r broses gomisiynu na gweithwyr proffesiynol. Mae eu profiadau uniongyrchol yn amlygu effeithiau'r broses gomisiynu ar y rhai sydd yn y system ofal ac yn awgrymu gwelliannau posibl. Mae'r adran hon yn cynnwys manylion am brif ganfyddiadau gwaith ymchwil ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Nodwyd y meysydd canlynol fel rhai perthnasol i gwestiynau'r ymchwil:

- **Cymryd rhan mewn penderfyniadau a chyfleu penderfyniadau**, gan gynnwys pam y mae'n bwysig gofyn am farn plant a phobl ifanc, a chyfleu penderfyniadau i symud plant a phobl ifanc i leoliadau newydd.
- Barn am **sefydlogrwydd lleoliadau**, yn enwedig effaith symud lleoliadau;
- Sut mae plant a phobl ifanc yn rhoi gwybod am lefelau eu **llesiant** a'u barn am faterion yn ymwneud â llesiant gan gynnwys teimlo'n wahanol neu gael eu trin yn wahanol, teimlo'n ddiogel, a gallu manteisio ar weithgarwch allgwrwicwlar;
- Sut mae plant a phobl ifanc yn siarad am eu **perthnasoedd** â gweithwyr proffesiynol, gofalwyr maeth, teuluoedd biolegol, a chymheiriaid;
- Ymwybyddiaeth o **agweddau ariannol comisiynu** ac effaith hyn ar lesiant emosiynol a seicolegol.

Mae Tabl 1 (Atodiad 1) yn crynhoi astudiaethau ac ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yn y DU, gan ddefnyddio llenyddiaeth academaidd yn ogystal â gwaith perthnasol sefydliadau sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Nid oedd astudiaethau wedi'u cynnwys yn yr adolygiad oni bai eu bod yn cyfleu barn plant a / neu bobl ifanc a gasglwyd drwy arolygon barn, cyfweiliadau neu ddulliau ansoddol eraill a lle barnwyd fod pwnc yr ymchwil yn berthnasol i gwestiynau'r ymchwil. Gall barn plant a phobl ifanc ar y materion hyn amrywio'n ôl eu math o leoliad yn ogystal â'u hamgylchiadau a'u nodweddion personol. Dylid nodi fod rhai ffynonellau'n cyfeirio at fathau penodol o leoliad yn unig ac roedd rhai'n cynnwys nifer fach yn unig o blant a phobl ifanc. Rhoddir gwybodaeth am gwmpas pob ffynhonnell data yn Nhabl 1, Atodiad 1 isod.

# Cyfranogi a chyfathrebu

## Pam y mae cyfranogi'n bwysig

Mae plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi'n fawr cael cyfrannu at brosesau penderfynu sy'n ymwneud â'u gofal (Comisiynydd Plant Cymru, 2016; Comisiynydd Plant Lloegr, 2018). Gall y cysylltiad hwn â'r broses ddangos parch at eu hawliau ac arwain at ganlyniadau gwell.

### Parchu hawliau

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn amlinellu hawliau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pob plentyn (UN, 1990). Dywed y Confensiwn fod gan blant yr hawl i gael eu magu gan eu rhiant neu rieni (erthygl 18), ond os na fydd hynny'n bosibl, mae gan blant hawl i gael gwarchodaeth a chymorth arbennig gan y llywodraeth (erthygl 20). Hefyd, ac yn bwysig iawn, dywed erthyglau 3 a 13, yn y drefn honno, y dylai oedolion wneud yr hyn sydd orau i'r plentyn, bod gan blentyn yr hawl i fynegi eu barn, ac y dylai oedolion wrando a chymryd eu barn o ddifrif.

Yr UNCRC yw sail 'Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru' (Comisiynydd Plant Cymru, 2017). Mae'n cynnwys fframwaith i helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol i gyfrannu at wireddu hawliau plant, sy'n cynnwys rhoi cyfleoedd ystyrion i blant i ddylanwadu ar benderfyniadau yn ymwneud â'u bywydau. Mae hyn yn golygu holi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal am eu profiad o ofal a defnyddio eu sylwadau fel sail i benderfyniadau a wneir gan oedolion (e.e. gweithwyr cymdeithasol) am yr hyn sydd orau iddynt.

### Gwella canlyniadau

Mae deall barn plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn bwysig hefyd o safbwynt comisiynu, gan arwain at y buddiannau canlynol:

- Helpu i ddeall yr hyn sy'n gweithio i blant mewn gofal, a beth ellid ei wella;
- Helpu i ddangos sut mae awdurdodau lleol yn cyflawni gofynion i wrando ar blant a phobl ifanc am newidiadau mewn gwasanaethau sy'n effeithio arnynt;
- Gweithredu fel sail i fframweithiau gwella gwasanaeth sy'n cael eu harwain gan blant gan ategu a gwella fframweithiau presennol;
- Galluogi rhannu ymarfer da rhwng awdurdodau lleol.

Ffynhonnell: Dadansoddiad WCPP o Coram Voice (2019)

Hefyd, mae rhai'n dadlau bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal mewn sefyllfa dda i fwrw golwg feirniadol dros y system ofal gan eu bod hwy'n poeni llai am reolau, gweithdrefnau a rolau proffesiynol na 'people that are employed by the system or people interested in



maintaining current system affairs' (Unrau, 2007:127).

## Sut y gellir cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau am eu gofal

Gellir rhannu ffyrdd o gyfranogi fel rhai unigol ac ar y cyd (Allcock, 2018 gan gyfeirio at Kennan et al., 2016). Ar lefel unigol, gall plant a phobl ifanc fynegi safbwyntiau a chyfranogi mewn penderfyniadau am eu gofal eu hunain, fel datgan pa fath o leoliad a lle maent yn ei ffafrio. Fodd bynnag, mae pryderon ynglŷn ag i ba raddau mae barn plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried o ddifrif mewn penderfyniadau ar lefel unigol ac a yw dulliau cyfranogi'n cael eu defnyddio mewn ffordd arwynebol (Diaz et al., 2018). Mae rhai wedi awgrymu defnyddio dulliau mwy creadigol i hwyluso mwy o gyfranogiad, fel gadael i blant a phobl ifanc gadeirio eu cyfarfodydd adolygu eu hunain (Ibid).

Mae rhai awdurdodau lleol wedi datblygu modelau i lywio cyfarfodydd ffurfiol fel adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, gyda'r nod o gynyddu cyfraniad ystyrllon gan blant a phobl ifanc.

---

### Model Tower Hamlets

**Drwy fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn mewn gofal cymdeithasol, mae Bwrdeistref Llundain Tower Hamlets wedi datblygu set o elfennau hanfodol ar gyfer cynnal adolygiadau plant sy'n derbyn gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r rhain yn cynnwys:**

- **Y plentyn neu'r person ifanc sy'n derbyn gofal ddylai fod y cyntaf i mewn i'r ystafell, gan fod hyn yn helpu i wneud iddi deimlo fel eu gofod hwy;**
- **Mae angen help ar y plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal i wneud eu cyfraniad;**
- **Dylai awyrgylch y cyfarfod bod yn bositif a realistig;**
- **Dylai sylwadau am y plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal gael eu cyfeirio'n uniongyrchol at y plentyn neu'r person ifanc;**
- **Dylai pryderon fod yn rhai gonest a theg, a rhaid i bawb osgoi beio a defnyddio iaith negyddol (Cyngor Tower Hamlets, 2015:14).**

---

Ar lefel y lefel gyfunol, gall plant a phobl ifanc gymryd rhan mewn astudiaethau ac ymarferion ymgynghori sydd wedi'u dylunio i lywio polisi neu arferion gweithio. Yn ystod y blynyddoedd

diwethaf, mae corff cynyddol o lenyddiaeth wedi datblygu, sy'n cynnwys cyfraniadau ansoddol gan blant a phobl ifanc i ategu ystadegau swyddogol (gweler Tabl 1, Atodiad 1 am grynoded o waith diweddar). Gall plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal hefyd fod yn rhan o grwpiau cynghori fel Cynghorau Plant mewn Gofal. Cafodd Cynghorau Plant mewn Gofal eu datblygu i alluogi cynrychiolaeth well gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ar lefel awdurdod lleol ac, er nad ydynt yn ofyniad statudol, maent wedi cael eu mabwysiadu gan y rhan fwyaf o gynghorau (Thomas a Percy-Smith, 2011). Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, mae heriau o hyd o ran ymgysylltu â rhai sydd wedi'u lleoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol (Ibid). Mae enghreifftiau hefyd o grwpiau cynghori'n gweithredu ar lefel genedlaethol a gyda chysylltiad penodol â chomisiynu.

---

## Grŵp Comisiynwyr Ifanc 4C

**Mae'r Comisiwn Comisiynu ar gyfer Plant Cymru (4Cs) yn cynorthwyo awdurdodau lleol yng Nghymru gyda'u trefniadau comisiynu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen pecynnau gofal cymhleth. Fel rhan o'u gwaith, maent wedi sefydlu grŵp Comisiynwyr Ifanc, sydd â'r nod o roi mwy o lais i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal wrth gomisiynu gwasanaethau lleoli yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae 30 o Gomisiynwyr Ifanc rhwng 7 a 17 oed yng Nghymru.**

**Mae Comisiynwyr Ifanc wedi bod yn gysylltiedig â'r penderfyniadau a'r prosesau canlynol sy'n ymwneud â chomisiynu (Arfer Da Cymru, 2016):**

- **Datblygiad y Datganiad Manyleb Plant a Phobl Ifanc sy'n disgrifio gofynion cartref da. Cafodd hwn ei gynnwys yn y Fframwaith Preswyl Cymru Gyfan, fframwaith ar gyfer darparwyr gofal preswyl;**
- **Profi a gwella'r templed 'amdanaf i' sy'n cynnwys gwybodaeth am y plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal i ddarparwr lleoliad newydd. Mae templed newydd yn seiliedig ar yr adborth hwn yn rhan o Becyn Cymorth Atgyfeirio a Pharu ar gyfer awdurdodau lleol;**
- **Datblygiad yr arolwg Canlyniadau 360 Gradd. Mae'r arolwg yn cael ei gwblhau gan blant a phobl ifanc â phrofiad o fyw mewn cartref preswyl ac mae'n rhan o brosesau monitro ansawdd.**

## Heriau

Mae heriau ynglŷn ag i ba raddau y dylai hoffterau plant a phobl ifanc gael eu hystyried a sut y dylai hyn amrywio'n ôl oedran ac aeddfedrwydd. Er enghraifft, yn eu hadolygiad o'r system faeth yn Lloegr, gwrthododd Narey ac Owers (2018:73) y syniad 'misconceived' y dylai plant a phobl ifanc allu dewis eu lleoliad gofal maeth eu hunain a nodwyd nad yw plant a phobl ifanc o bosibl yn gwybod bob amser beth sydd orau iddynt. Maent yn dadlau yn hytrach y dylid cynnwys plant a phobl ifanc 'wherever practicable, and reflecting their age, level of understanding and circumstances' (Ibid).

Mae eraill yn tynnu sylw at y rhwystrau ymarferol a sefydliadol sydd ynghlwm wrth weithredu prosesau mwy cyfranogol. Wrth ystyried llesiant plant yn gyffredinol, noda Keenan et al. (2016) nifer o heriau sy'n rhaid eu goresgyn, gan gynnwys:

- Yr angen am sawl opsiwn i ystyried gwahanol hoffterau a galluoedd;
- Yr angen am sgiliau cyfathrebu i ddeall barn plant a phobl ifanc;
- Pwyslais sefydliadau a systemau ar amddiffyn, yn hytrach na grymuso, plant a phobl ifanc;
- I ba raddau mae gweithwyr proffesiynol yn derbyn yr egwyddor o gyfranogi ac eiriol dros gynnwys plant mewn penderfyniadau. Er enghraifft, mae llawer yn credu bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn rhy agored i niwed neu heb y gallu i gael eu cynnwys mewn penderfyniadau (Flykesnes et al., 2018).

Hefyd, mae heriau eraill ynghlwm wrth ddatblygu arferion cyfranogi sy'n gweithio i grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc (Allcock, 2018). Er enghraifft, mae rhywfaint o dystiolaeth ynglŷn â sut i deilwra arferion cyfranogol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledd (McNeilly et al., 2015) ac o gefndir lleiafrifoedd ethnig (Fylkesnes et al. 2018). Un ffordd o deilwra arferion ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cyfathrebu gwahanol yw drwy ddefnyddio 'pasbortau cyfathrebu'. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys manylion am hoffterau cyfathrebu'r plentyn neu berson ifanc fel y gall staff a gofalywyr gyfathrebu â hwy yn y ffordd fwyaf effeithiol (Franklin a Goff, 2018).

## Beth mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn ei feddwl am gyfranogiad?

Mae'r llenyddiaeth yn datgelu hefyd y gall plant a phobl ifanc eu hunain gael profiadol negyddol o gyfranogiad ac mae'n nodi anawsterau sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth bwysig. Mae llawer o astudiaethau wedi dangos nad yw plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau, gyda rhai yn teimlo bod gweithwyr cymdeithasol a gofalywyr maeth yn cymryd y broses drosodd (Ymchwiliad Gofal, 2013; Comisiynydd Plant Cymru, 2016; Comisiynydd Plant Lloegr, 2018). Yng Nghymru, dywedodd 17% o rai 11-18 oed ac 20% o rai 7-10 oed mewn gofal nad oeddent yn teimlo

bod neb yn gwrando arnynt na'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau gyda llawer yn dweud yr hoffent gael eu cynnwys yn amlach (Selwyn et al., 2018).

Mae ymchwil arall wedi datgelu safbwyntiau mwy cymysg tuag at y broses adolygu gyda rhai plant a phobl ifanc yn teimlo bod eu barn yn cael ei chynnwys, gydag eraill yn teimlo ei bod yn 'ddibwrpas' neu'n teimlo bod ei barn yn cael ei chamliwio mewn adroddiadau neu gynlluniau (Family Rights Groups, 2018). Dywedodd rhai pobl ifanc hefyd bod gormod o bobl yn bresennol yn eu cyfarfodydd adolygu ac y byddent yn teimlo'n fwy cyfforddus mewn grŵp llai (Diaz et al., 2018).

Mae rhai plant a phobl ifanc wedi dweud eu bod yn gorfod dangos pendantrwydd gydol yr amser er mwyn i'w llais gael ei glywed mewn prosesau penderfynu fel cyfarfodydd adolygu a gall rhai hyd yn oed ymddwyn yn heriol fel ffordd o gyflymu penderfyniadau (Edwards, 2012; Girling 2019). Mewn rhai achosion, gall methiant i gyfathrebu a chynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau wneud iddynt ymddwyn mewn ffordd a allai fod yn niweidiol, fel dianc o leoliad (Franklin a Goff, 2018; Girling, 2019). Gall hyn fod yn 'gyfrwng gorfodi' lle mae plentyn neu berson ifanc yn teimlo nad oes ganddynt y modd i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n ymwneud â'u lleoliad (Girling, 2019).

Mae ystyriaethau'n ymwneud â chyfranogi yn arbennig o gymhleth yng nghyd-destun y proses Gorchymyn Llety Diogel. Nid oedd rhai o'r bobl ifanc a gyfwelwyd yn Williams et al. (2019) yn deall y broses hon neu nid oedd eu barn wedi cael ei hystyried a gwrthodwyd i un dyn ifanc fod yn bresennol mewn gwrandawriad llys. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gall hysbysu'r person ifanc o'r gorchymyn olygu mwy o risg o ddianc neu hunan-niweidio (Ibid).

Mae rhai plant a phobl ifanc wedi galw am newidiadau penodol i roi sylw i'r materion hyn fel mwy o gyfranogiad mewn penderfyniadau ar leoliadau, holi eu barn yn breifat a chyn gwneud penderfyniad (Ymchwiliad Gofal, 2013) a bod mwy o amser yn cael ei gymryd i ddeall anghenion, ymddygiad a chefnidir y plant a phobl ifanc (Edwards, 2012; Ymchwiliad Gofal, 2013). Er bod enghreifftiau positif i'w gweld yn y llenyddiaeth – fel plant a phobl ifanc mewn gofal preswyl yn sôn am gyfarfodydd a arweiniodd at newidiadau yn y ffordd roedd y cartref yn cael ei redeg o ddydd i ddydd (Comisiynydd Plant Cymru, 2016) – nodwyd nifer o faterion eraill yn ymwneud â phrosesau penderfynu yn y llenyddiaeth ond ni edrychwyd yn fanwl iawn arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Y defnydd o iaith ddryslyd mewn cyfarfodydd adolygu (Comisiynydd Plant Cymru, 2016) yn ogystal â phroblemau'n codi lle mae ar y plentyn neu'r person ifanc angen ffurf cyfathrebu penodol fel iaith arwyddion (Ymchwiliad Gofal, 2013);
- Oedi cyn cyfarfodydd adolygu a phrosesau penderfynu araf (Edwards, 2012; Comisiynydd Plant Cymru, 2016);

- Cwestiynau lletchwith neu anghyfforddus yn cael eu gofyn i blant a phobl ifanc mewn cyfarfodydd o flaen aelodau o'u teulu biolegol (Cossar et al., 2011);
- Methiant i rannu penderfyniadau ar newidiadau i gysylltiadau ag aelodau'r teulu (Comisiynydd Plant Cymru, 2016). Awgrymodd un plentyn y dylai plant a phobl ifanc gael llythyr sy'n egluro'r hyn a ddwedwyd mewn cyfarfodydd lle nad oeddent yn bresennol (Selwyn et al., 2018).

Yn ogystal ag ystyriaethau'n ymwneud â phrosesau penderfynu, mae'r llenyddiaeth hefyd yn awgrymu problemau ehangach â chyfathrebu. Dywedodd plant a phobl ifanc nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth ynglŷn â pham maent mewn gofal, eu hawliau, a'r trefniadau ar gyfer gadael gofal.

### Rhesymau am fod mewn gofal

Mae rhai adroddiadau'n awgrymu nad yw plant a phobl ifanc yn cael digon o wybodaeth am eu bywydau cynnar a pham maent mewn gofal (Ymchwiliad Gofal, 2013; Selwyn et al. 2018; Family Rights Group, 2018), ac y byddai mwy o help i 'ddeall eu gorffennol' yn gwneud gofal yn well (Comisiynydd Plant Lloegr, 2015). Ymddengys fod hyn yn broblem fawr i blant ifanc, gan fod 33% o rai 4-7 oed yng Nghymru (o'i gymharu â rhai 10% of 11-18 oed) yn teimlo nad oeddent wedi cael dim esboniad pam eu bod mewn gofal (Selwyn et al., 2018). Mae dadansoddiad o ddata'r arolwg wedi datgelu cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng diffyg esboniad am fynediad i ofal a theimlo'n ansefydlog mewn lleoliad (Staines a Selwyn, 2020).

Mae peth o'r llenyddiaeth yn dangos y gallai plant a phobl ifanc elwa ar help a chefnogaeth i gael gafael ar eu ffeiliau neu ar waith stori bywyd (Ymchwiliad Gofal, 2013; Family Rights Group, 2018). Mae gwaith stori bywyd yn galluogi plant a phobl ifanc i greu darlun o'u hanes a'u taith o fewn y system ofal, gyda'r nod o'u helpu i fynegi eu teimladau mewn amgylchedd cyfforddus ac i ddeall eu gorffennol yn well (NSPCC, 2019). Mae gwelliannau'n cael eu gwneud yn y maes hwn a chanfu arolwg 2017 Ofsted gynnydd ers 2016 yn nifer y plant a ddywed eu bod wedi cael helpu i ddeall pam eu bod mewn gofal.

### Hawliau

Mae rhai plant a phobl ifanc wedi sôn am ddiffyg gwybodaeth am eu hawliau gan ddweud u bod yn ansicr ynglŷn â'u hawliau yn y system ofal, yn enwedig plant ifanc a rhai sy'n fwy newydd i ofal (Edwards, 2012; Ymchwiliad Gofal, 2013; Comisiynydd Plant Lloegr 2015).

Dywed plant a phobl ifanc eu bod yn gwerthfawrogi eiriolwyr (Family Rights Group, 2018) ond nid yw'n amlwg a ydynt i gyd yn cael digon o wybodaeth am yr hyn mae eiriolwyr yn ei wneud a sut mae cael gafael arnynt. Er bod Comisiynydd Plant Lloegr (2015) wedi canfod nad oedd dros hanner y plant mewn gofal maeth yn gwybod sut i gael eiriolydd, mae ymchwil â phlant mewn gofal preswyl yng Nghymru yn awgrymu bod y grŵp hwn yn ymwybodol o eiriolwyr a sut i ddefnyddio eu gwasanaethau (Comisiynydd Plant Cymru, 2016).

## Gadael gofal

Dyweddod rhai pobl ifanc nad oeddent yn cael digon o wybodaeth am yr hyn a fyddai'n digwydd iddynt ar ôl gadel gofal ac nad oeddent yn gwybod beth oedd eu hawliau (Comisiynydd Plant Cymru, 2011, 2016; Comisiynydd Plant Lloegr, 2018). Mae pobl ifanc wedi sôn am ddiffyg eglurder ynglŷn ag opsiynau ac argaeledd cymorth pan fyddant yn gadael gofal ac nad yw eu trefniadau gofal yn cael eu cwblhau tan y funud olaf (Comisiynydd Plant Cymru, 2011). Mewn un achos, dywedodd un person ifanc 17 mlwydd a 10 mis oed nad oedd yn gwybod ble byddai'n byw ar ôl iddo gyrraedd 18 oed (Comisiynydd Plant Cymru, 2016).

## Sefydlogrwydd lleoliadau

Mae plant a phobl ifanc mewn gofal wedi mynegi eu hangen am sefydlogrwydd a'u hawydd i fyw mewn cartref sefydlog ac i feithrin perthnasoedd tymor hir; fodd bynnag, mae llawer yn profi lefelau uchel o ansefydlogrwydd o ran newid cartrefi, ysgolion a gweithwyr cymdeithasol (Selwyn et al. 2018; Comisiynydd Plant Lloegr, 2019). Yng Nghymru, roedd 29% o'r rhai a fu'n derbyn gofal am dair blynedd neu fwy wedi bod mewn un lleoliad yn unig, gyda 44% wedi cael rhwng 2-4 o leoliadau (Selwyn et al., 2018). Roedd pobl ifanc a oedd wedi profi pum lleoliad neu ragor (20%), yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent 'bron byth' neu 'byth' yn teimlo eu bod yn setlo a gwelir fod cysylltiad ystadegol rhwng symud o un lleoliad i un arall a lefelau llesiant is (Ibid).

Mae'n bosibl nad yw profiadau o ansefydlogrwydd yn cael eu cofnodi'n fanwl mewn data symud lleoliadau. Fel y noda Girling (2019), gall amrywiaeth eang o brofiadau achosi ymdeimlad o ansefydlogrwydd fel dianc o leoliad, neu newidiadau mewn gweithiwr cymdeithasol neu grŵp cymheiriaid (gweler 'Perthnasoedd', tt. 17-20). Gall symud rhwng gwahanol fathau o leoliadau (e.e. o gartref preswyl i ofal maeth neu'r ffordd arall) ychwanegu elfen arall o newid gan fod yn rhaid i blant a phobl ifanc orfod addasu i reolau a disgwyliadau gwahanol o ran ymddygiad (Girling, 2019). Hefyd, mae cysylltiad rhwng y ffordd mae plant a phobl ifanc yn profi lleoliad ac i ba raddau maent yn cael gwybodaeth a'u cynnwys mewn penderfyniadau. Mewn un astudiaeth, roedd plant a phobl ifanc a oedd yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth ac yn cael eu cynnwys yn ystod newid mewn lleoliad yn fwy tebygol o edrych mewn ffordd bositif ar y penderfyniad, hyd yn oed os nad oeddent yn awyddus i newid ar y pryd (Girling, 2019).

Er bod symud lleoliadau'n gallu bod yn angenrheidiol a'u bod yn gallu arwain at wella llesiant (Boddy, 2013; Girling, 2019), mae llawer o'r llenyddiaeth yn cyfeirio at effeithiau negyddol. Mae plant a phobl ifanc wedi mynegi teimladau o dristwch, dicter, siom a blinder (Comisiynydd Plant Lloegr, 2019) a all gael eu dwysau pan fydd lleoliadau'n chwalu (Rostill-Brookes et al., 2011). Hefyd, gall symud lleoliadau'n aml achosi ansicrwydd o ran diffyg



gwybodaeth am ba hyd fydd yr un cyfredol yn para, gan wneud i rai plant a phobl ifanc boeni y bydd yn rhaid iddynt symud ar fyr rybudd (Narey ac Owers, 2018).

Gall symud lleoliad effeithio hefyd ar systemau cymorth cymdeithasol plant a phobl ifanc. Clywodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol (2018) dystiolaeth gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fod gorfod symud lleoliad yn cael effeithiau negyddol ar eu gallu i wneud ffrindiau. Mae rhai plant a phobl ifanc wedi dweud eu bod yn teimlo'n unig ar ôl symud lleoliad a oedd wedi a heb eu cynllunio (Comisiynydd Plant Lloegr, 2019). Gall y problemau hyn gael eu dwysau pan fydd lleoliadau yn bell oddi wrth ffrindiau a theulu, gan ei gwneud yn anodd i ymweld a chadw cysylltiad (Larkins et al. 2015). Fodd bynnag, gall mynediad at gyfryngau cymdeithasol alluogi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i gynnal cysylltiad â chymheiriaid a manteisio ar gymorth cymheiriaid wrth symud lleoliad (Hammond, 2018).

Gall newid lle yn aml hefyd effeithio ar fynediad plant a phobl ifanc at addysg a phrofiadau addysgol. Dywedodd plant a phobl ifanc eu bod wedi gorfod ailadrodd pynciau roeddent wedi'u hastudio eisoes neu eu hopsiynau TGAU a bod hynny'n arwain at ddiflastod neu ddadurithiad (Mannay et al., 2015). Mae gwaith a wnaethpwyd gan Gomisiynydd Plant Lloegr (2019) ar ansefydlogrwydd lleoliadau wedi dangos sut y gall y broses o newid ysgol achosi teimladau o ofn, unigrwydd, pryder neu iselder a dwysau ymdeimlad o ansicrwydd. Mewn rhai amgylchiadau, fodd bynnag, gall y profiad o newid ysgol fod yn un positif sy'n arwain at fwy o help neu gymorth mwy arbenigol. Mae plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi pontio esmwyth gyda chyn lleied â phosibl o amser heb ysgol, yn ogystal â chael athro dynodedig i gynnal cymorth (Ibid).

Nid yw aflonyddwch wedi'i gyfyngu i'r meysydd hyn a gall newidiadau i le lleoliad achosi ystod o oblygiadau eraill i blant a phobl ifanc. Gall symud rhwng ardaloedd awdurdodau lleol, er enghraifft, achosi problemau i blant a phobl ifanc sy'n defnyddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), gan olygu eu bod yn mynd i waelod rhestr aros newydd (Williams et al., 2019). Mae rhai plant a phobl ifanc yng Nghymru wedi dweud eu bod yn gorfod teithio'n ôl i'w hawdurdod cartref i ddefnyddio gwasanaethau iechyd neu hyd yn oed fynd heb ofal (Comisiynydd Plant Cymru, 2011). Hefyd, gall lleoli plant o Gymru mewn awdurdod yn Lloegr effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg. Er enghraifft, efallai na fydd modd cynnal sesiynau cyswllt dan oruchwyliaeth i blant Cymraeg eu hiaith os nad oes aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael (Comisiynydd Plant Cymru, 2016).

Mae llawer o astudiaethau hefyd yn nodi problemau o ran rheoli pontio rhwng lleoliadau. Mae plant a phobl ifanc wedi nodi'r profiadau canlynol wrth symud rhwng lleoliadau fel rhai sy'n gallu achosi problemau:

- **Ddim yn cael gwybod yn union pam mae lleoliad yn dod i ben a ddim yn cael digon o amser i baratoi ar gyfer symud** (Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 2018; Comisiynydd Plant Lloegr, 2015). Dywedodd rhai plant eu bod wedi cael eu 'symud yn syth ar ôl ysgol neu ar eu ffordd yn ôl ar ôl ymweld â'u teulu biolegol' (Narey ac Owers, 2018:71);
- **Gwybodaeth atgyfeirio anghyflawn ar gyfer gofalwyr newydd.** Er enghraifft, gwybodaeth nad yw'n gyfoes, sy'n cynnwys ffeithiau anghywir neu sy'n disgrifio'r plant drwy ddefnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar ddiffygion (Narey ac Owers, 2018);
- **Dim cyfleoedd i ymweld ymlaen llaw â lleoliadau maeth.** Mae plant a phobl ifanc wedi awgrymu y dylent gael ymweld â lleoliadau maeth newydd cyn iddynt symud i mewn (Ymchwiliad Gofal, 2013; Narey ac Owers, 2018). Hefyd, mae plant a phobl ifanc wedi nodi profiadau positif drwy ymweld â lleoliadau preswyl newydd cyn symud. Gall hyn alluogi'r plentyn neu'r person ifanc i ddisgrifio'r cartref i'w ffrindiau a'u teulu a dod i adnabod y plant a phobl ifanc sydd yn y lleoliad cyn iddynt symud i mewn (Comisiynydd Plant Cymru, 2016);
- **Dim digon o wybodaeth am leoliadau maeth cyn symud.** Er bod y rhan fwyaf o blant mewn un astudiaeth wedi dweud eu bod wedi cwrdd â'u gofalwyr maeth cyn symud, nid oeddent wedi cael digon o wybodaeth am y cartref ac aelodau eraill yr aelwyd (Comisiynydd Plant Lloegr, 2018). Dywedodd rhai fod y diffyg gwybodaeth hwn wedi arwain at baru gwael a'u bod yn teimlo'n siomedig gyda'u lleoliad newydd;
- **Dim digon o wybodaeth am leoliadau preswyl cyn symud** (Comisiynydd Plant Cymru, 2016; Comisiynydd Plant Lloegr, 2018; Narey ac Owers, 2018). Canfu arolwg diweddar nad oedd un o bob pedwar plentyn a pherson ifanc yn cael gwybodaeth ddefnyddiol cyn symud i mewn i gartref preswyl (Ofsted, 2016).

Mae plant a phobl ifanc hefyd wedi nodi'r ffactorau canlynol fel rhai a fyddai'n hwyluso symud rhwng lleoliadau:

- Cael rhywun i wirio eu bod yn setlo yn eu cartref newydd neu i ddarparu gwasanaeth cyfryngu neu gymorth wyneb yn wyneb (Ymchwiliad Gofal, 2013, Comisiynydd Plant Lloegr, 2019). Nodwyd fod lleoliadau lle darperir gofal gan berthynas yn rhai lle gall materion emosiynol a gwrthdaro godi ac roedd rhai plant a phobl ifanc yn teimlo y byddai cyfryngu yn arbennig o ddefnyddiol yn y lleoliadau hyn (Ymchwiliad Gofal, 2013);
- Argaeledd cymorth emosiynol ac ymarferol i bobl ifanc sy'n mynd ymlaen i fyw'n annibynnol (Comisiynydd Plant Cymru, 2011);
- Cael cyfle i bersonoli eu hystafell wely cyn symud i mewn (Ymchwiliad Gofal, 2013);



- Cael eu symud gyda, neu fod yn nes at, frodyr neu chwiorydd (Comisiynydd Plant Lloegr, 2019);
- Cael cadw gwrthrychau cyfarwydd fel teganau meddal a ffotograffau o ffrindiau neu aelodau'r teulu (Wilson a Milne, 2013).

## Llesiant

Mae'r astudiaeth Welsh Bright Spots yn dangos bod gan fwyafrif y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru lesiant goddrychol cymedrol, fel sy'n cael ei fesur gan raddfa Llesiant yr ONS (Selwyn et al., 2018). Hefyd, canfu arolwg a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Lloegr (2015) fod mwyafrif y plant a phobl ifanc yn teimlo bod eu lleoliad presennol yn cyd-fynd â'u hanghenion neu eu hoffterau, gyda 81% yn ateb 'ydw' i'r cwestiwn 'a ydych chi'n meddwl bod y lle rydych yn byw yn awr yn iawn i chi?'

Er hynny, nid yw lleiafrif arwyddocaol o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn sgorio'n uchel o ran Llesiant nac yn teimlo bod eu lleoliad presennol yn addas ar gyfer eu hanghenion. Roedd gan 18% o bobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru sgoriau yn y cyfwng 'isel', cyfran sy'n uwch na'r boblogaeth yn gyffredinol. Roedd ffactorau sy'n cynyddu'r tebygrwydd o lesiant isel yn cynnwys: dim oedolyn y gallant ymddiried ynddo, eu bod yn anhapus mewn lleoliad gofal, a bod â pherthynas wael â gweithwyr cymdeithasol (Selwyn et al., 2018). Yn yr un modd, yn Lloegr, dywedodd 2% o blant a phobl ifanc nad oeddent yn meddwl mai'r lle roeddent yn byw ynddo oedd y 'lle iawn' (Comisiynydd Plant Lloegr, 2015).

Hefyd, datgelodd y llenyddiaeth farn plant a phobl ifanc ar ystod o feysydd sy'n berthnasol i lesiant: teimlo eu bod neu'n cael eu trin yn wahanol am eu bod yn blant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal, mynediad at weithgarwch allgwricwlar, a diogelwch.

## Teimlo eu bod neu'n cael eu trin yn wahanol

Dyweddodd rai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal eu bod wedi teimlo eu bod neu yn cael eu trin yn wahanol i'w cymheiriaid yn yr ysgol.

Roedd hyn weithiau'n cael ei achosi gan weithdrefnau ac arferion sy'n gwneud eu statws gofal yn amlwg i ddisgyblion eraill. Mae plant a phobl ifanc wedi sôn am gyfarfodydd sy'n ymwneud â'u statws gofal yn cael eu trefnu'n ystod y diwrnod ysgol a bod hynny'n gallu amharu ar eu dysgu ac arwain at gwestiynau anghyfforddus gan gymheiriaid (Comisiynydd Plant Cymru, 2011; Mannay et al., 2017). Gall disgwyl am gyfarfodydd achosi teimlad o bryder neu o fethu setlo sy'n ffactor ychwanegol i amharu ar ddysgu (Ibid). Gall y teimlad o fod yn 'wahanol' godi hefyd mewn nosweithiau rhieni, pan fydd presenoldeb gweithwyr cymdeithasol yn hytrach nag aelodau o'r teulu biolegol yn datgelu statws gofal plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i eraill (Selwyn et al., 2018).

Mae plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal hefyd wedi dweud nad oes ganddynt gymaint o ryddid ac annibyniaeth â'u cymheiriaid, gyda rhai'n meddwl bod eu gweithwyr cymdeithasol a'u gofalwyr maeth yn rhy llym ac eraill (plant hŷn fel arfer) yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn annheg (Comisiynydd Plant Lloegr, 2018). Dywed rhai plant a phobl ifanc nad ydynt yn cytuno â'r rheolau ar gyfer amser gwely, anifeiliaid anwes a defnydd o Wi-Fi mewn gofal preswyl a maeth (Ofsted, 2018) a'r defnydd o brosesau asesu risg maith mewn gofal preswyl (Comisiynydd Plant Cymru, 2016).

## Diogelwch

Roedd nifer uwch o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru (4-10 oed) yn teimlo'n ddiogel 'bob amser' o'i gymharu â phlant yn y boblogaeth yn gyffredinol (Selwyn et al., 2018). Mae'r canfyddiad hwn yn cael ei adleisio mewn ymchwil â phlant a phobl ifanc mewn llety diogel yng Nghymru, a ddywed eu bod yn teimlo'n saff yn yr amgylchedd diogel sy'n cael ei reoleiddio, er eu bod yn dweud hynny weithiau ar ôl cyfnod pontio anodd a thrawmatig (Williams et al., 2019). Mae canfyddiadau arolwg blynyddol Ofsted wedi awgrymu bod plant a phobl ifanc mewn cartrefi preswyl yn gallu teimlo'n llai diogel na rhai mewn gofal maeth, er nad yw'r rheswm dros hyn yn amlwg. Yn y ddau achos, dywed y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc eu bod yn teimlo'n ddiogel gydol yr amser – 69% o blant a phobl ifanc mewn gofal preswyl o'i gymharu â 93% o'r rhai mewn gofal maeth (Ofsted, 2017).

## Cyfleoedd allgwricwlar

Dywed rhai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ei bod yn cael mwy o gyfleoedd ers iddynt fod yn rhan o'r system ofal (Comisiynydd Plant Lloegr, 2018). Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau a hobiau y tu allan i'r ysgol, cael mwy o help yn yr ysgol a'u bod yn fwy 'parod am fywyd'. Dywedodd 93% o bobl ifanc sy'n derbyn gofal (11-18 oed) yng Nghymru eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a hobiau y tu allan i'r ysgol (Selwyn et al., 2018). Yn yr un modd, mae ymchwil ar gartrefi preswyl yng Nghymru wedi dangos mynediad da at weithgarwch allgwricwlar, er bod gan blant a phobl ifanc lawer o amser pan nad oedd ganddynt ddim i'w wneud (Comisiynydd Plant Cymru, 2016).

Ar y llaw arall, mae rhai plant a phobl ifanc yn Lloegr wedi dweud eu bod yn colli gweithgarwch allgwricwlar o ganlyniad i fethiant gwasanaethau cymdeithasol i weithredu'n brydlon i roi caniatâd i fynd ar dripiâu ysgol a gweithgarwch arall (Edwards, 2012). Mae gwerthusiad o effaith bositif rhaglen gelfyddydol ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi amlygu hwyluswyr posibl eraill i gyfranogi mewn gweithgarwch allgwricwlar (Salmon a Rickaby, 2014). Mae'r rhain yn cynnwys: cymorth ariannol i'w mynychu, staff sy'n alluog i annog cyfranogiad a gwaith tîm a chymorth cyson gan ofalwyr (gyda throsiant uchel staff yn rhwystr posibl).

## Perthnasoedd

Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn dangos bod cynnal a datblygu perthnasoedd positif yn rhywbeth pwysig ac mae llawer yn sôn am berthnasoedd positif â staff a gofalwyr sy'n neilltuo amser ac ymdrech i'w helpu ac sy'n bresenoldeb cyson yn eu bywydau (Comisiynydd Plant Lloegr, 2015). Er hynny, dywed llawer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal hefyd nad oes blaenoriaeth yn cael ei roi i berthnasoedd hirhoedlog ag aelodau'r teulu, gofalwyr blaenorol, a gweithwyr cymdeithasol (Coram Voice, 2015). Canfu astudiaeth a oedd yn edrych ar 16 o bobl ifanc sy'n gadael gofal nad oedd bron dim enghreifftiau o berthnasoedd positif di-dor ag oedolion o blentynod cynnar neu ganol (Holland et al., 2010).

Mae'r adran hon yn edrych ar farn plant a phobl ifanc am eu perthynas â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill, gofalwyr maeth, teuluoedd biolegol a chymheiriaid.

## Gweithwyr cymdeithasol

Un o benderfynyddion pwysig llesiant plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yw safon eu perthynas â gweithwyr cymdeithasol (Selwyn et al. 2018). Awgrymwyd y gall perthnasoedd cryf rhwng plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'u gweithwyr cymdeithasol helpu i hwyluso mwy o gyfranogiad mewn prosesau penderfynu (Roesch-Marsh et al., 2016) a chynyddu'r tebygrwydd y byddant yn canfod ac yn cadw lleoliad addas o ganlyniad i baru gwell (Ymchwiliad Gofal, 2013).

Mae'r astudiaethau a adolygwyd yn awgrymu bod gan blant a phobl ifanc brofiadau cymysg o ryngweithio â gweithwyr cymdeithasol. Er bod rhai plant a phobl ifanc yn sôn am brofiadau positif, mae rhai hefyd wedi nodi cyfathrebu anfyfych a/neu deimlo fod eu gweithiwr cymdeithasol yn rhy ymwithgar (Cossar, 2011; Selwyn et al., 2018; Narey ac Owers, 2018; Comisiynydd Plant Lloegr, 2018). Mae ffactorau eraill a nodwyd yn cynnwys methiant i ddeall anghenion a dymuniadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a methiant i gadw at addewidion (Comisiynydd Plant Cymru, 2011).

Mae'r ymchwil hefyd wedi dangos profiadau a hoffterau amrywiol plant a phobl ifanc pan ddaw'n fater o arferion gweithio gweithwyr cymdeithasol. Mewn un astudiaeth, roedd barn plant a phobl ifanc am eu gweithwyr cymdeithasol yn amrywio i 'ffrind' a 'cefnogol' i 'annibynadwy', 'anweledig' a 'nawddoglyd' – gyda rhai yn eu harddegau yn disgrifio'r profiadau mwyaf negyddol (Comisiynydd Plant Lloegr, 2018). Mae ymchwil a wnaed gan Stabler et al. (2019) yn awgrymu bod plant a phobl ifanc yn ymateb yn wahanol i'r un arferion gweithio gan weithwyr cymdeithasol ac ar sail hynny dylai gweithwyr cymdeithasol fod yn hyblyg yn eu gwaith, gan ystyried hoffterau plant a phobl ifanc.

Daeth yn amlwg bod newid gweithwyr cymdeithasol yn aml yn ffactor pwysig ymhlith plant a phobl ifanc. Dywedodd 25% o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn arolwg Bright Spots eu bod wedi cael tri neu fwy o weithwyr cymdeithasol yn ystod y 12 mis blaenorol, gyda 38% yn

dweud eu bod wedi cael dau. Hefyd, roedd lleiafrif arwyddocaol (26%) o blant ifanc (pedair i saith oed) yn ansicr ynglŷn â phwy oedd eu gweithiwr cymdeithasol (Selwyn et al., 2018). Er bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc wedi dweud eu bod yn ymddiried yn eu gweithiwr cymdeithasol canfuwyd cysylltiad sy'n arwyddocaol yn ystadegol rhwng cael tri gweithiwr cymdeithasol a mynegi diffyg ymddiriedaeth (ibid).

O ganlyniad i drosiant staff, dywed plant a phobl ifanc eu bod yn gorfod meithrin perthnasoedd o'r dechrau ac ailadrodd gwybodaeth bersonol a sensitif wrth gwrdd â gweithiwr cymdeithasol newydd (Ymchwiliad Gofal, 2013; Narey ac Owers, 2018; Comisiynydd Plant Lloegr, 2019). Mae plant a phobl ifanc wedi disgrifio'r broses o ddod i adnabod gweithiwr cymdeithasol newydd fel un rwystredig, ailadroddus a blinderus, ac mewn rhai achosion gall achosi teimladau o ddifaterwch (Comisiynydd Plant Lloegr, 2019). Hefyd, gall colli gweithiwr cymdeithasol gael effaith emosiynol ar blant a phobl ifanc, sydd wedi disgrifio teimladau o gael eu gwrthod a thrallod o golli oedolyn roeddent yn gallu ymddiried ynddo (Comisiynydd Plant Lloegr, 2019). Dywedodd rhai nad oeddent yn gallu ffarwelio na chysylltu â'u cyn weithwyr cymdeithasol ar ôl iddynt symud ymlaen (Ymchwiliad Gofal, 2013).

Mae'r llenyddiaeth yn cynnwys nifer o awgrymiadau gan blant a phobl ifanc ynglŷn â sut y gellid gwella'r sefyllfa, fel lleihau gwaith papur a mwy o hyfforddiant i wella arferion gweithio ac i osgoi'r teimlad nad ydynt 'yn ddim mwy nag unrhyw achos arall' (Ymchwiliad Gofal, 2013). Mae plant a phobl ifanc wedi cynnig yr awgrymiadau canlynol hefyd ar gyfer rheoli newid rhwng gweithwyr cymdeithasol yn effeithiol (Comisiynydd Plant Lloegr, 2019):

- Trafod y newid ymlaen llaw â'r plentyn neu'r person ifanc i roi amser iddynt i addasu;
- Rhoi gwybodaeth am yr angen i newid ac am y gweithiwr cymdeithasol newydd;
- Caniatáu cyswllt i barhau â chyn weithwyr cymdeithasol;
- Sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol newydd wedi cael gwybodaeth briodol am y plentyn neu'r person ifanc;
- Nodwyd y byddai presenoldeb gweithiwr proffesiynol arall a all weithredu fel elfen o gysondeb (fel athro, Swyddog Adolygu Annibynnol neu gwnselydd) hefyd yn fuddiol.

## Gofalwyr maeth a gofalwyr mewn cartrefi preswyl

Cafwyd adroddiadau positif dros ben gan lawer o'r plant a phobl ifanc a gymerodd ran yn adolygiad Narey ac Owers 2018 o ofal maeth am eu perthynas â gofalwyr maeth. Yn yr un modd dangosodd arolwg yng Nghymru fod llawer o blant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn rhan o'u teulu maeth a'u bod yn cael eu trin yn yr un ffordd â phlant eraill y gofalwyr maeth (Selwyn et al., 2018). Ar y llaw arall, fodd bynnag, roedd teimladau plant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn astudiaeth yn Lloegr tuag at eu gofalwyr maeth yn fwy cymysg, gan edrych arnynt ar y cyfan mewn ffordd llai ffafriol na gweithwyr o sefydliad hawliau plant annibynnol (Edwards, 2012).

Ymddengys hefyd fod gan blant a phobl ifanc farn bositif ar y cyfan am staff cartrefi gofal preswyl. Er enghraifft, dywedodd llawer o'r plant a phobl ifanc a gymerodd ran yn arolwg 2018 Ofsted mai aelodau staff oedd un o'r agweddau yr oeddent yn ei hoffi ynglŷn â bod mewn cartref preswyl. Fodd bynnag, fel yn achos gweithwyr cymdeithasol, nodwyd fod trosiant staff yn gallu cael effaith negyddol a dywedodd un plentyn ei fod yn teimlo bod staff 'yn gadael o'n herwydd ni' (Comisiynydd Plant Cymru, 2016). Hefyd, mae rhai wedi dweud eu bod yn teimlo bod staff yn rhoi i fyny yn rhy hawdd ac nad ydynt bob amser yn rhoi digon o help i ddatrys problemau (Ymchwiliad Gofal, 2013).

## Teuluoedd biolegol

Mae cyfweiliadau â phlant a phobl ifanc wedi amlygu'r effaith emosiynol negyddol a all ddeillio o ddiffyg cysylltiad ag aelodau'r teulu, gan ddatgelu profiadau o drallod ac unigrwydd ar ôl symud lleoliad (Comisiynydd Plant Lloegr, 2019). Ymhlith y 10% o blant a phobl ifanc nad oedd yn teimlo eu bod yn byw yn y 'lle iawn', nodwyd diffyg cysylltiad â'u teulu biolegol yn aml fel y rheswm pam nad oedd y lleoliad yn addas (Comisiynydd Plant Lloegr, 2015). Mewn un arolwg, dywedodd un o bob tri pherson ifanc nad oeddent yn cael digon o gysylltiad â brodyr a chwiorydd a bod hynny mewn rhai achosion am fod y brawd neu'r chwaer wedi cael eu mabwysiadu neu eu symud i leoliad gofal preswyl arall (Selwyn et al., 2018).

Fodd bynnag, mae hwn yn fater cymhleth, ac i lawer mae dod i gysylltiad â'u rhieni biolegol yn gallu bod yn brofiad trallodus. Dangosodd astudiaeth fach ar gysylltiad fod rhai plant a phobl ifanc yn teimlo pwysau i gadw mewn cysylltiad, yn teimlo'n ofnus yn ystod sesiynau cyswllt neu'n teimlo eu bod wedi eu gadael i lawr gan rieni nad oedd yn cadw apwyntiad (McDowell et al., 2019). Mae'r profiadau hyn yn dangos pwysigrwydd rheoli'r broses gyswllt yn ofalus, gan ystyried teimladau'r plentyn neu'r person ifanc (gweler hefyd, 'Cyfranogiad a Chyfathrebu' isod).

## Plant a phobl ifanc eraill

Nododd rai plant a phobl ifanc nad oeddent yn hoffi cael eu lleoli â grwpiau cymheiriaid penodol neu eu bod yn amheus o breswylwyr eraill mewn cartref preswyl (Berridge et al., 2012; Comisiynydd Plant Cymru, 2016). Er enghraifft, nid yw rhai pobl ifanc yn hoffi cael eu lleoli â phlant iau ac roeddent yn disgrifio manau cymunol eu cartref gofal fel manau prysur neu'n 'llawn anhrefn' (Comisiynydd Plant Cymru, 2016). Gall pobl ifanc sy'n cael eu lleoli mewn llety diogel am resymau llesiant deimlo bod lleoliad â phobl ifanc o'r system cyfiawnder troseddol yn amhriodol (Williams et al., 2019).

Gall newidiadau i grŵp cymheiriaid plentyn neu berson ifanc mewn lleoliad gofal hefyd gyfrannu at ymdeimlad o ansefydlogrwydd. Gall trosiant uchel mewn grŵp cymheiriaid wrth i blant a phobl ifanc gyrraedd a gadael lleoliad yn barhaus achosi straen (Ward, 2009) neu deimladau o ddryswch neu annhegwch (Girling, 2019). Gall cymheiriaid â phrofiad o ofal mewn lleoliad fod yn ffynhonnell cymorth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a all gael ei

golli pan fydd eu ffrindiau'n symud ymlaen i leoliad arall neu'n dychwelyd at eu teuluoedd biolegol (Ibid).

## Ymwybyddiaeth o agweddau ariannol comisiynu

Ychydig yn unig o astudiaethau ac ymgynghoriadau sydd wedi cynnwys cwestiynau uniongyrchol am y broses gomisiynu. Fodd bynnag, dengys rhai ohonynt fod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn ymwybodol o agweddau ariannol comisiynu ac y gall hynny gael effaith emosiynol a seicolegol negyddol.

Canfu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol (2018) fod rhai plant a phobl ifanc yn gwybod fod darparwyr yn ymgeisio am eu proffiliau yn ystod y broses gomisiynu, ac roedd y syniad bod darparwyr yn gwneud elw o'u gofal yn achosi trallod. Atebodd tri o blant a oedd yn gweithredu fel tystion i'r ymchwiliad yn gadarnhaol pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu trin fel nwyddau.

Mae dau adroddiad arall hefyd yn tynnu sylw at ymwybyddiaeth rhai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal am agweddau ariannol y system ofal. Yn 'Y Gofal Cywir' (Comisiynydd Plant Cymru, 2016), dywedodd un cyfranogwr ei bod yn teimlo ei bod yn gorfod newid ei lleoliad (yn erbyn ei hewyllys) oherwydd cyfyngiadau ariannol. Dywed yr awdur y byddai dweud wrth berson ifanc bod eu gofal yn rhy gostus yn gallu ennyn teimlad i euogrwydd. Canfu ymchwil Llywodraeth Cymru (Mannay et al., 2015) i brofiadau addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fod rhai yn ymwybodol o wrthdaro rhwng awdurdodau lleol ynglŷn â chyfrifoldeb am ariannu adnoddau fel cludiant a phrydau ysgol. Roedd profi gwrthdaro o'r fath yn gallu bod yn niweidiol i hunan barch plant a phobl ifanc.



# Barn rhieni biolegol

Er bod ganddynt hwythau farn bwysig am y system ofal, mae ymchwilwyr wedi gweld bod rhieni biolegol yn gallu bod yn grŵp anodd ei gyrraedd (Larkins et al. 2015) a phrin yw'r astudiaethau sy'n edrych ar eu profiadau hwy o'r system ofal. Hefyd, gall fod yn anodd i ymchwilwyr i ystyried barn rhieni biolegol ag ystod o gefndiroedd a phrofiadau heb geisio cael 'safbwynt rhieni' unedig (Hall a Slembrouck, 2011). Yn yr adolygiad hwn, dim ond naw o bapurau a welwyd sy'n bodloni'r meini prawf cynhwysiant canlynol:

- Wedi'u cyhoeddi yn y 10 mlynedd diwethaf;
- Wedi holi barn rhieni biolegol plant neu bobl ifanc mewn gofal yn uniongyrchol drwy arolygon, cyfweiliadau, grwpiau ffocws neu ddulliau eraill
- Canfyddiadau sy'n berthnasol i gwestiynau'r ymchwil h.y. yn rhoi golwg ar y broses gomisiynu.

Roedd dau o'r papurau yn canolbwyntio ar brofiadau dau is-grŵp o rieni biolegol (rhieni ifanc a rhieni ag anabledau) ac roedd eraill yn canolbwyntio ar un agwedd yn unig ar y system ofal, fel y broses fabwysiadu (Neil et al., 2010) a threfniadau cyswllt (Larkins et al. 2015). Roedd pob un o'r astudiaethau a adolygwyd yn rhai cymharol fach, ac eithrio Neil et al. (2010) a oedd yn cynnwys canfyddiadau arolwg o dros 400 o rieni. Roedd dwy o'r astudiaethau'n canolbwyntio'n benodol ar Gymru. Ceir rhagor o fanylion am y cwmpas a'r dulliau a ddefnyddiwyd yn yr astudiaethau a adolygwyd yn Nhabl 2, Atodiad 2.

Er prinder y llenyddiaeth a ganfuwyd gan yr adolygiad, mae'r astudiaethau a welwyd yn tynnu sylw at dri maes allweddol:

- Barn am **arferion gweithio gweithwyr cymdeithasol**;
- Profiadau o **gynnwys mewn prosesau penderfynu** fel asesiadau 'Plentyn mewn Angen' a threfniadau cyswllt;
- Anghenion **cymorth**, argaeledd a hygyrchedd cymorth priodol, a chanlyniadau'r cymorth.

## Gweithwyr cymdeithasol

Mae'r astudiaethau a adolygwyd wedi datgelu profiadau rhieni biolegol o ryngweithio â gweithwyr cymdeithasol.

Mae'n ddealladwy bod gan rieni biolegol deimladau cymysg o bryder ac amheuaeth pan fyddant yn delio â gwasanaethau cymdeithasol (Munro et al. 2018; Morris et al., 2017) a dywed rhai eu bod yn bychanu'r anawsterau maent yn eu hwynebu i leddfyr risg y gallant

golli gwarchodaeth am eu plant. Mae'n ymddangos bod yr ofnau hyn wedi'u dwysau ymhlith rhai grwpiau o rieni biolegol gan gynnwys rhieni ifanc a rhieni ag anableddau (Lynch et al. 2016, Munro et al. 2018). Roedd rhieni ag anableddau'n teimlo bod gweithwyr cymdeithasol yn rhoi gormod o bwyslais ar ddiffygion a risgiau yn hytrach nag ar eu cryfderau (Munro et al., 2018). Soniodd rhieni ifanc hefyd am brofiadau negyddol wrth ddelio â gweithwyr cymdeithasol, gan deimlo bod rhai yn eu trin fel plant neu nad oeddent yn ymddiried ynddynt nac yn eu parchu oherwydd eu hoed (Lynch, 2016).

Nodwyd ystod o brofiadau negyddol eraill gan rieni o amrywiaeth o gefndiroedd. Er enghraifft, soniodd rhieni am weithwyr cymdeithasol yn gweithredu eu pwerau mewn prosesau penderfynu yn hytrach na chydweithio (Neil et al., 2010; Morris et al., 2017; Munro et al., 2018), sydd wedyn yn niweidio perthnasoedd a allai ddwysau emosiynau negyddol ynglŷn ag ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol. Roedd nodweddion neu arferion eraill gweithwyr cymdeithasol a ganfuwyd a oedd yn cael effaith negyddol ar berthnasoedd yn cynnwys anghysondeb o ran eu hwyliau neu eu dulliau o weithio, gwneud tybiaethau negyddol, a methiant i efelychu'r ymddygiad maent yn ei ddisgwyl gan rieni biolegol, fel canslo sesiynau cyswllt ar fyr rybudd (Morris et al., 2017).

Er hynny, soniodd rhai rhieni am brofiadau positif wrth ddelio â gweithwyr cymdeithasol. Mae'r nodweddion a nodwyd fel perthnasoedd positif yn cynnwys gallu siarad ac uniaethu â phobl o gefndiroedd gwahanol, gallu gwneud i bobl deimlo'n gartrefol, gallu cydweithio, egluro prosesau'n eglur, osgoi gwneud tybiaethau negyddol a bod yn onest ynglŷn ag anghytundebau (Lynch 2016; Morris et al. 2017). Roedd rhieni'n gwerthfawrogi ymdrechion gweithwyr cymdeithasol i'w hysbysu a'u cynnwys mewn prosesau penderfynu (Neil et al., 2010; Lynch, 2016), yn ogystal â gweithio'n hyblyg i roi cymorth y tu allan i oriau (Larkins et al. 2015). Hefyd, roedd rhieni'n gwerthfawrogi sensitifrwydd wrth drafod pynciau anodd a phersonol (Lynch, 2016).

Gan atseinio'r canfyddiadau ar farn plant a phobl ifanc, mynegodd rhieni hefyd rwystredigaeth ynglŷn â throsiant gweithwyr cymdeithasol ac roedd newid mewn staff yng nghanol achos yn cael ei weld fel rhywbeth a oedd yn amharu arnynt (Morris et al. 2017). Roedd rhieni'n gwerthfawrogi cyfleoedd i feithrin perthnasoedd tymor hir ond nid oedd hyn yn bosibl bob amser oherwydd y pwysau a oedd yn cael ei achosi gan lwythau achos trwm a chraffu dwys a brofwyd gan weithwyr cymdeithasol (Ibid).

## Cynnwys mewn penderfyniadau

Mae cyfranogiad rhieni biolegol mewn penderfyniadau yng ngofal cymdeithasol plant wedi ei ddisgrifio fel 'one of the most complex and sensitive areas of social work practice' (Healy a Darlington, 2009:420). Er gwaethaf heriau'r gwaith hwn, mae ymgysylltu â rhieni biolegol yn rhan bwysig o ymarfer gwaith cymdeithasol ac ymchwil ym maes gofal cymdeithasol i blant.



Yn gyntaf, mae gorfodaeth gyfreithiol a pholisi i gadw teuluoedd gyda'i gilydd ac i atal plant a phobl ifanc rhag ymuno â'r system ofal pan yn bosibl. Yng Nghymru, mae adran 81 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol drefnu bod plant a phobl ifanc yn cael eu magu gan eu teulu oni bai y byddai hynny'n mynd yn groes i'w llesiant. Yn ymarferol, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwneud gwaith ataliol drwy raglenni fel Teuluoedd yn Gyntaf, gyda'r nod o gydweithio â rhieni i ddarparu cymorth addas (Llywodraeth Cymru, 2017). Yn y cyd-destun hwn, mae canfod barn rhieni biolegol am eu hamgylchiadau a'u hanghenion cymorth yn hanfodol i gyflawni gofynion y polisïau a'r rhaglenni hyn.

Yn ail, mae llawer o rieni sy'n profi ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol yn profi amgylchiadau personol anodd dros ben. Mae trais domestig, cam-drin sylweddau a phroblemau iechyd meddwl (y 'triawd sbarduno') wedi eu cydnabod fel ffactorau sy'n bresennol yn aml mewn teuluoedd sy'n profi ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol (Chowdry, 2018). Ar hyd a lled y DU, fodd bynnag, mae pryderon am argaeledd cymorth i rieni biolegol ac am ei barhad ar ôl i blentyn gael ei roi mewn gofal. Gall ystyried barn rhieni biolegol helpu gwasanaethau cyhoeddus i fyfyrion ar y cymorth a ddarperir ganddynt a gwella polisïau ac arferion gweithio.

Gall rhieni biolegol gyfrannu at benderfyniadau ar lefel achosion unigol yn ogystal ag yn fwy cyffredinol drwy ddulliau cydweithredol. Ar lefel unigol, gall rhieni biolegol ymgysylltu â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill ynglŷn â gofal eu plant eu hunain drwy gyfarfodydd ffurfiol, fel cynadleddau grŵp teulu yn ogystal â sgysiau anffurfiol. Ar y lefel gyfunol, mae grwpiau fel y Grŵp Hawliau Teuluoedd yn eiriol ar ran rhieni sy'n profi ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol drwy gynnal ymchwil a gwaith polisi.

Ar y cyfan, roedd astudiaethau'n pwysleisio pwysigrwydd rhoi gwybodaeth eglur a chywir yn ogystal â gwrandao ar farn rhieni biolegol drwy gydol prosesau penderfynu (Lynch, 2016; Morris et al., 2017; Munro et al., 2018). Yn yr un modd, mae darparu gwybodaeth am sesiynau cyswllt â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn bwysig hefyd i rieni biolegol. Canfu Pye a Rees (2019) fod rhieni'n dod i ddeall am drefniadau cyswllt drwy brofiad yn bennaf yn hytrach na'u bod yn cael gwybodaeth yn ffurfiol ar ddechrau'r broses. Yn aml roedd aelodau'r teuluoedd a oedd yn cymryd rhan yn ansicr ynglŷn â gwahanol rolau gofawyr, gweithwyr cymdeithasol a goruchwylwyr cyswllt ac roeddent yn aneglur ynglŷn â diben cyswllt a'r angen am oruchwyliaeth (Ibid).

Yng nghyd-destun asesiadau 'Plentyn mewn Angen', mae canfyddiadau Munro et al. (2018) yn amlygu amrywiaeth o broblemau mae rhieni ag anableddau yn eu hwynebu gan gynnwys diffyg gwybodaeth am ddiben a phroses yr asesiad a pheidio â chael eu trin fel arbenigwyr ar eu namau eu hunain. Mae rhieni iau wedi sôn am ddiffyg paratoi digonol ar gyfer y penderfyniad i gymryd eu plentyn i ofal o ganlyniad i fethiant gwasanaethau cymdeithasol i rannu trefn debygol y broses asesu. Dywedodd rhai a oedd wedi llofnodi cytundebau ag

awdurdodau lleol eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt lawer o ddewis ac nad oedd digon o gynllunio (Lynch, 2016). Canfu astudiaeth ddiweddar yng Nghymru ar blant mewn gofal sydd â rhieni ag anableddau dysgu bod lle i wella o ran darparu gwybodaeth hygyrch o safon uchel sy'n cael ei chyfleu'n effeithiol i rieni (Burch et al., 2019).

Mae ystyriaethau sy'n ymwneud â chynnwys rhieni biolegol mewn penderfyniadau'n rhai dyrys ac, mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd yn briodol i'w cynnwys. Her allweddol wrth gynnwys rhieni mewn penderfyniadau yw'r posibilrwydd y gallai fod angen i weithwyr cymdeithasol weithredu eu pŵer mewn ffordd sy'n gwrthdaro â dymuniadau riant/rhieni biolegol (Healy a Darlington, 2009). Hefyd, gall yr anghydbwysedd pŵer rhwng gweithwyr cymdeithasol a theuluoedd achosi pryder wrth ddelio â Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant. Dywed rhai rhieni biolegol eu bod wedi teimlo'n bryderus ac anghyfforddus yn ystod sesiynau cyswllt oherwydd ofnau y gallant 'wneud camgymeriad' a chael eu beirniadu gan oruchwylywr cyswllt. (Pye a Rees, 2019).

Er hynny, os nad ydynt yn cael eu cynnwys, mae rhieni biolegol yn gwerthfawrogi cael gwybodaeth gan weithwyr cymdeithasol. Dywedodd un rhiant, er enghraifft, pan mor ddiolchgar yr oedd bod gweithiwr cymdeithasol wedi ei diweddarau a'i helpu i ddygymod â phenderfyniad ei phlentyn i wrthod cysylltu â hi (Larkins et al., 2015).

## Cymorth

Mae nifer o astudiaethau wedi pwysleisio anghenion aciwt llawer o rieni biolegol sy'n wynebu ystod o broblemau gan gynnwys trais domestig, cam-drin sylweddau, a phroblemau iechyd meddwl. Gall cyd-destun penodol y system ofal a'r posibilrwydd o golli gwarchodaeth plentyn amharu ar ddarpariaeth cymorth oherwydd gall rhieni fod yn llai agored ynglŷn â'u hanghenion. Soniodd rhieni ag anableddau eu bod yn teimlo bod ceisio cael gafael ar wasanaethau gallu bod yn beryglus, a bod angen cydbwysio rhwng ymddangos yn ddigon anghenus i gael gwasanaethau a heb fod mor anghenus fel y gallai eu plentyn gael ei gymryd i ofal (Munro et al., 2018). Gwelwyd fod cymorth wedi'i deilwra fel rhan o Gynlluniau Gofal a Chymorth i rieni ag anableddau dysgu yn cael effaith bositif ar ba mor dda mae rhieni yn ymgysylltu â'r cymorth hwnnw (Burch et al., 2019: 38).

Amlygodd y llenyddiaeth hefyd ystod o fathau eraill o gymorth nad oedd rhieni'n teimlo a oedd yn cael ei ddarparu. Mae rhieni wedi tynnu sylw at yr angen am help ymarferol i fynd i'r afael â materion sylfaenol fel anawsterau â thai, arian, cyflogaeth a hyfforddiant (Lynch, 2016; Morris et al., 2017). Dywedodd un tad ifanc fod ei statws mewnudwr (a'r Nid oes Arian Cyhoeddus ar Gael a ddeilliodd o hynny) yn ystyriaeth sylfaenol a oedd yn ei atal rhag bod yn rhiant da ond nid oedd cymorth y gallai droi ato i ddatrys y broblem (Lynch, 2016). Heblaw am gymorth arbenigol, soniodd rhai rhieni hefyd am absenoldeb cymorth lefel isel, aml gan weithwyr cymdeithasol (Percy-Smith a Dalrymple, 2018) ac yn gysylltiedig â chyswllt (Pye a Rees, 2019). Mae cysylltiad rhwng hyn â phroblem ehangach yn gysylltiedig â pharhad gofal,

gan fod rhai rhieni wedi dweud bod cymorth yn dod i ben yn ddisymwth ar ôl i orchymyn gofal cael ei wneud (Morris et al., 2017; Munro et al. 2018).

Ymddengys fod pobl ifanc sydd wedi profi gofal ac sy'n rhieni eu hunain yn anghymesur o debygol o brofi ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol eu hunain (Roberts, 2019). Felly, mae cymorth i rieni ifanc yn bwysig o safbwynt atal cylchoedd o genhedlaeth i genhedlaeth sy'n defnyddio'r system ofal. Mae ymchwil a wnaed gyda rhieni sydd wedi profi gofal eu hunain wedi amlygu'r heriau sydd ynghlwm wrth ddarparu cymorth priodol i'r grŵp hwn. Er bod ystod o gynlluniau lleol yng Nghymru, mae argaeledd rhwng awdurdodau lleol yn amrywiol dros ben ac yn aml mae ymyriadau ar gael ar delerau 'untro' yn unig (Ibid). Hefyd, mae'r dystiolaeth o effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer y grŵp hwn yn brin, ynghyd â phryderon y gallai cymorth arbenigol fod yn achos stigma (Ibid).

Er na chafodd hygyrchedd cymorth ei drafod yn fanwl yn y llenyddiaeth, nodwyd y gall fod yn anos i deuluoedd mewn ardaloedd gwledig i gael gafael ar help (Morris et al., 2017; Roberts, 2019).

# Casgliad

Mae plant a phobl ifanc a'u teuluoedd sydd â phrofiad o ofal wedi rhannu safbwyntiau gwerthfawr ar y system ofal a gall ymgorffori eu barn mewn prosesau penderfynu helpu i wella polisïau ac arferion gweithio. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adolygiad o'r llenyddiaeth hon gan dynnu sylw at dystiolaeth sy'n berthnasol i gomisiynu yng Nghymru.

Mae canfyddiadau'n awgrymu tri phrif faes sy'n her i gomisiynwyr: symud lleoliadau, trosiant staff, a datblygu arferion cyfranogol.

Nodwyd **ansefydlogrwydd lleoliadau** fel problem sylweddol i blant a phobl ifanc, gyda llawer yn dweud eu bod wedi cael eu symud a newid lle yn aml. Mae plant a phobl ifanc wedi sôn am ystod o effeithiau negyddol sy'n deillio o symud lleoliadau gan gynnwys trallod, teimlo'n ynysig ac anghydfodau ynglŷn â chael gafael ar wasanaethau cyhoeddus. Gallai lleoliad daearyddol lleoliadau hefyd achosi problemau o ran cynnal cysylltiadau teuluol a bygwth hawliau iaith plant a phobl ifanc Cymraeg eu hiaith. Yn ychwanegol at amllder symud lleoliad, mae plant a phobl ifanc hefyd wedi dweud bod rheoli symudiadau a mwy o lais mewn prosesau penderfynu yn gallu gwneud y profiad o symud yn un mwy positif.

Daeth thema ansefydlogrwydd i'r amlwg hefyd yng nghyd-destun gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr. Er bod llawer o blant a phobl ifanc wedi edrych ar eu perthynas â gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr mewn ffordd bositif, dywedwyd yn y llenyddiaeth fod **trosiant staff** yn broblem sylweddol. Mae trosiant uchel ymhlith staff yn achos trallod a rhwystredigaeth i lawer o blant a phobl ifanc ac mae'n cyfrannu at anawsterau wrth geisio meithrin perthnasoedd tymor hir. Mae rhai rhieni biolegol hefyd wedi nodi fod trosglwyddo i weithwyr cymdeithasol newydd ar ganol achos yn gallu achosi problemau. Er bod lefelau uchel o drosiant yn cael ei weld fel rhywbeth problemus, mae plant a phobl ifanc wedi cynnig awgrymiadau ar sut i wella'r broses o newid o un gweithiwr cymdeithasol i un arall ac i leddfau rhai o effeithiau negyddol trosglwyddo. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi gwybodaeth gywir am blant a phobl i staff newydd ifanc a rhoi cyfle i ffarwelio'n briodol ag aelodau staff pan fyddant yn symud ymlaen.

Yn olaf, daeth mater trawsbynciol i'r amlwg ynglŷn â **sut mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau**. Mae rhesymau da dros gynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a cheir enghreifftiau positif o arferion cyfranogol yn y DU. Fodd bynnag, yn y llenyddiaeth gwelwyd fod llawer o blant a phobl ifanc yn teimlo eu bod wedi'u dadrymuso oherwydd diffyg llais mewn penderfyniadau a chyfathrebu gwael. Mewn rhai achosion, gallai hyn wneud i blant a phobl ifanc ymddwyn mewn ffordd heriol neu niweidiol hyd yn oed. Er bod y llenyddiaeth ar farn rhieni biolegol yn brinnach, mae'r astudiaethau sydd ar gael yn awgrymu bod rhieni biolegol yn profi rhwystredigaeth debyg.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos pwysigrwydd prosesau cyfranogol parhaus ac o sylwedd wrth i bolisi ac ymarfer ddatblygu yng Nghymru.

# Cyfeiriadau

Allcock, A. (2018). **Frameworks for child participation in social care**. Cyrchwyd o: <https://www.iriss.org.uk/resources/esss-outlines/frameworks-child-participation-social-care>

Berridge, D., Biehal, N. a Henry, L. (2012). **Living in Children's Residential Homes**. Research Report, vol. DFE-RR201, Yr Adran Addysg, Llundain.

Boddy, J. (2013). **Understanding permanence for looked after children: A review of research for the Care Inquiry**. Cyrchwyd o: [http://sro.sussex.ac.uk/id/eprint/44711/1/Boddy\\_2013\\_Understanding\\_Permanence.pdf](http://sro.sussex.ac.uk/id/eprint/44711/1/Boddy_2013_Understanding_Permanence.pdf)

Burch, K., Allen, V., Green C., Taylor, V a Wise, S. (2019). **Ymchwil i'r nifer o blant yng Nghymru a roddwyd mewn gofal oddi ar rieni ag anabledd dysgu a'r rhesymau dros eu symud**. Llywodraeth Cymru, Rhif Ymchwil Cymdeithasol 56/2019. Cyrchwyd o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/ymchwil-nifer-blant-yng-nghymru-roddwyd-gofal-oddi-ar-rieni-ag-abledd-dysgu-rhesymau-dros-eu-symud.pdf>.

Care Inquiry. (2013). **Making not Breaking: Building relationship for our most vulnerable children**. Cyrchwyd o: [https://www.becomecharity.org.uk/media/1129/care\\_inquiry\\_-\\_full\\_report\\_april\\_2013.pdf](https://www.becomecharity.org.uk/media/1129/care_inquiry_-_full_report_april_2013.pdf)

Comisiynydd Plant Lloegr. (2015). **State of the Nation: Report 1. Children in Care and Care Leavers Survey 2015**. Cyrchwyd o: [https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2017/06/Care-monitor-v12\\_1.pdf](https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2017/06/Care-monitor-v12_1.pdf)

Comisiynydd Plant Lloegr. (2018). **Voices of Children in Foster Care**. Cyrchwyd o: <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2018/05/VOICE-OF-CHILDREN-AND-YOUNG-PEOPLE-IN-FOSTER-CARE.pdf>

Comisiynydd Plant Lloegr. (2019). **Children's experiences of instability in the care system**. Cyrchwyd o: <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2019/07/cco-childrens-voices-childrens-experiences-of-instability-in-the-care-system-july-2019.pdf>

Comisiynydd Plant Cymru. (2016). **Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru**. Cyrchwyd o: <https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2016/06/Y-gofal-cywir.pdf>

Comisiynydd Plant Cymru. (2017). **Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru**. Cyrchwyd o: <https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant/y-ffordd-gywir-2/>.

Chowdry, H. (2018). **Estimating the Prevalence of the 'Toxic Trio': Evidence from the Adult Psychiatric Morbidity Survey**. Comisiynydd Plant Lloegr, Llundain.

Coram Voice. (2015). **Children and Young People's Views on Being in Care**. Cyrchwyd o: <https://coramvoice.org.uk/sites/default/files/Children's%20views%20lit%20review%20FINAL.pdf>

Coram Voice. (2019). **'Your Life, Your Care' Survey**. Cyrchwyd o: <https://coramvoice.org.uk/your-life-your-care-survey>

Cossar, J., Brandon, M. a Jordan, P. 2011. **'Don't make assumptions': Children's and young people's views of the child protection system and messages for change**. Cyrchwyd o: [https://dera.ioe.ac.uk/2690/1/force\\_download.php%3ffp=%252Fclient\\_assets%252Fcp%252Fpublication%252F486%252FChildrens\\_and\\_young\\_peoples\\_views\\_of\\_the\\_child\\_protection\\_system\\_.pdf](https://dera.ioe.ac.uk/2690/1/force_download.php%3ffp=%252Fclient_assets%252Fcp%252Fpublication%252F486%252FChildrens_and_young_peoples_views_of_the_child_protection_system_.pdf)

Diaz, C. (2018). **A study into children and Young people's participation in their Child in Care Reviews**. DSW Thesis, Prifysgol Caerdydd: Caerdydd.

Edwards, J. (2012). **Looked After Care: Young People's Views of Making Decisions in Review and Planning Meetings**. PhD thesis, University of East London, Llundain.

Family Rights Group (2018). **Care Crisis Review: options for change**. Cyrchwyd o: [https://www.frg.org.uk/images/Care\\_Crisis/CCR-FINAL.pdf](https://www.frg.org.uk/images/Care_Crisis/CCR-FINAL.pdf).

Fylkesnes, M. K. et al. (2018). **Precarious participation: exploring ethnic minority youth's narratives about out-of-home placement in Norway**. Children and Youth Services Review, 88: 341-347.

Girling, R. (2019). **Yet Another Change: The Experience of Movement for Children and Young People Looked After** yn Mannay, D., Rees, A., a Roberts, L. (goln). Children and Young People 'Looked After'? Education, Intervention and the Everyday Culture of Care in Wales. Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, tt.127-129.

Arfer Da Cymru. (2016). **A Wêl a Gred: Astudiaethau Achos**. Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chydgyhyrchu Cymru. Cyrchwyd o: <https://www.goodpractice.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=96&mid=187&fileid=85>.

Hall, C. a Slembrouck, S. (2011). **Interviewing parents of children in care: Perspectives, discourses and accountability.** Children and Youth Services Review, 33(3): 457-465.

Hammond, S. et al. (2018). **Social Media, Social Capital and Adolescents Living in State Care: A Multi-Perspective and Multi-Method Qualitative Study.** The British Journal of Social Work, 48(7): 2058–2076.

Healy, K. a Darlington, Y. (2009). **Service user participation in diverse child protection contexts: Principles for practice.** Child & Family Social Work, 14(4): 420-430.

Holland, S., Floris, C., Crowley, A. a Renold, E. (2010). **How was your day? Learning from experience: Informing preventative policies and practice by analysing critical moments in care leaver's life histories.** Caerdydd: Prifysgol Caerdydd

Keenan, D., Brady, B. a Forkan, C. (2016). **Exploring the effectiveness of structures and procedures intended to support children's participation in child welfare, child protection and alternative care services: a systematic literature review.** Cyrchwyd o: [https://aran.library.nuigalway.ie/bitstream/handle/10379/6303/Kennan\\_et\\_al.\\_Systematic\\_Literature\\_Review\\_on\\_Children%27s\\_Participation\\_2016.pdf?sequence=1&isAllowed=y](https://aran.library.nuigalway.ie/bitstream/handle/10379/6303/Kennan_et_al._Systematic_Literature_Review_on_Children%27s_Participation_2016.pdf?sequence=1&isAllowed=y)

Larkins, C., Ridley, J., Farrelly, N., Austerberry, H., Bilson, A., Hussein, S., Manthorpe, J., a Stanley, N. (2015). **Children's, young people's and parents' perspectives on contact: Findings from the evaluation of social work practices.** British Journal of Social Work, 45(1): 296-312.

Lynch, C. (2016). **Young parents' involvement in the child welfare system.** Family Rights Group. Cyrchwyd o: <https://www.frg.org.uk/images/YPP/YPP-FINAL.pdf>.

Mannay, D. et al. (2015). **Deall profiadau addysgol a safbwyntiau, cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.** Cyrchwyd o: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/151111-understanding-educational-experiences-opinions-looked-after-children-en.pdf>.

Mannay, D., Evans, R., Staples, E., Hallett, S., Roberts, L., Rees, A. ac Andrews, D. (2017). **The consequences of being labelled 'looked-after': Exploring the educational experiences of looked-after children and young people in Wales.** British Educational Research Journal, 43(4): 682-699.

Mannay, D., Smith, P., Jennings, S., Turney, C., a Davies, P. (2018). **The value of cultural and creative engagement: Understanding the experiences and opinions of care-experienced young people and foster carers in Wales. Project Report.** Cyrchwyd o:



<http://orca.cf.ac.uk/117079/1/FINAL%20REPORT%20The%20Value%20of%20Cultural%20and%20Creative%20Engagement%20November%202018.pdf>

Mannay, D., Staples, E., Hallett, S., Roberts, L., Rees, A., Evans, R. ac Andrews, D. (2018). **Enabling talk and reframing messages: Working creatively with care experienced children and young people to recount and re-represent their everyday experiences.** *Child Care in Practice*, 25(1): 51-63.

McDowell, E., McLoughlin, M. a Cassidy, T. (2019). **Contact with Birth Parents: Hearing the Voice of the Looked After Child.** *Journal of Social Sciences and Humanities*, 5(3): 194-199.

McNeilly, P., Macdonald, G., a Kelly, B. (2015). **The Participation of Disabled Children and young people: A Social Justice Perspective.** *Child Care in Practice*, 21(3): 266-286.

Morris, K., Archard, P. J., Laird, S. a Clawson, R. (2017). **Family experiences of children's social care involvement following a social work change programme.** *Journal of Social Work Practice*, 32(3): 237-250.

Munro, E., and Zonouzi, M. (2018). **Re-imagining social care services in co-production with disabled parents.** University of Bedfordshire, Luton. Cyrchwyd o: <http://www.drilluk.org.uk/wp-content/uploads/2019/06/Research-Findings-Munro-et-al.-2018-Re-imagining-social-care-services-in-co-production.pdf>.

Narey, M. Ac Owers, M. (2018). **Foster Care in England: A Review for the Department for Education.** Cyrchwyd o: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/679320/Foster\\_Care\\_in\\_England\\_Review.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/679320/Foster_Care_in_England_Review.pdf)

Neil, E., Cossar, J., Lorgelly, P. a Young, J. (2010). **Helping birth families: A study of service provision, cost and outcomes.** Research Report, vol. DCSF-RBX-10-05, Department for Children, Schools and Families, Llundain.

Ofsted. (2016). **Social care questionnaires 2016: what children and young people told Ofsted.** Cyrchwyd o: <https://www.gov.uk/government/publications/social-care-questionnaires-2016-what-children-and-young-people-told-ofsted>.

Ofsted. (2017). **Children's social care questionnaires 2017. What children have told us about their experiences of living in children's homes or living with foster carers.** Cyrchwyd o: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/696913/Children\\_s\\_social\\_care\\_questionnaires\\_2017.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/696913/Children_s_social_care_questionnaires_2017.pdf).

Ofsted. (2018). **Children's social care questionnaires 2018. What children have told us about their experiences of living in their respective settings, including children's homes, boarding schools and with foster carers.** Cyrchwyd o: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/781096/Children\\_s\\_social\\_care\\_questionnaires\\_2018.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/781096/Children_s_social_care_questionnaires_2018.pdf).

Percy-Smith, B. a Dalrymple, J. (2018). **Stories from journeys to the edge of care: Challenges for children and family services**. Children and Youth Services Review, 94. 216-224.

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. (2018). **Plant a Phobl Ifanc sydd wedi bod mewn gofal.** Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Pye, J. a Rees, P. (2019). **Factors that promote positive supervised birth family contact for children in care** yn Mannay, D., Rees, A., a Roberts, L. (goln. Children and young people 'Looked After'? Education, Intervention and the Everyday Culture of Care in Wales. Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, tt. 112-26.

Roberts, L. (2019). **"A family of my own": When young people in and leaving state care become parents in Wales** in Mannay, D., Rees, A., a Roberts, L. (goln) Children and young people 'Looked After'? Education, Intervention and the Everyday Culture of Care in Wales. Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, tt.140-152.

Roesch-Marsh, A., Gillies, A. a Green, D. (2016). **Nurturing the virtuous circle: Looked After Children's participation in reviews, a cyclical and relational process.** Child & Family Social Work, 22(2): 904-913.

Rostill-Brookes, H., Larkin M., Toms A. a Churchman, C. (2011). **A shared experience of fragmentation: making sense of foster placement breakdown.** Clinical Child Psychology and Psychiatry, 16(1): 103-127.

Salmon, D. a Rickaby, C. 2014. **City of one: a qualitative study examining the participation of young people in care in a theatre and music initiative.** Children and Society, 28: 30-41.

Selwyn, J., Magnus, L., Symonds, J. a Briheim-Crookall, L. (2018). **Our Lives, Our Care: Wales 2018. Looked after children's views on their well-being. Bright Spots.** Cyrchwyd o: [https://coramvoice.org.uk/sites/default/files/bright\\_spots\\_-\\_wales\\_report\\_-\\_final\\_1.11.18\\_english.pdf](https://coramvoice.org.uk/sites/default/files/bright_spots_-_wales_report_-_final_1.11.18_english.pdf)

Stabler, L., Wilkins, D. a Carro, H. (2019). **What do children think about their social worker? A Q-method study of children's services.** Child & Family Social Work, 2019: 1-9.

Tower Hamlets Council. (2015). **Person centred planning with children and young people: The Tower Hamlets model.** Cyrchwyd o: [https://www.towerhamlets.gov.uk/Documents/Children-and-families-services/Early-Years/TH\\_PCP\\_Model.pdf](https://www.towerhamlets.gov.uk/Documents/Children-and-families-services/Early-Years/TH_PCP_Model.pdf)

Thomas, N. anPercy-Smith, B. (2012). **'It's about changing services and building relationships': evaluating the development of Children in Care Councils.** Child & Family Social Work, 17(4): 487-496.

Y Cenhedloedd Unedig (1990). **Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn.** Cyrchwyd o: [https://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC\\_summary-1.pdf](https://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_summary-1.pdf)

Unrau, Y.A. (2007). **Research on placement moves: Seeking the perspective of foster children.** Children and Youth Services Review, 29: 122-137.

Ward, H. (2009). **Patterns of instability: Moves within the care system, their reasons, contexts and consequences.** Children and Youth Services Review, 31: 1113-1118.

Llywodraeth Cymru. (2015). **Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol: Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.** Cyrchwyd o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/fframwaith-safonau-a-chanlyniadau-cenedlaethol-ar-gyfer-plant-a-phobl-ifanc-yng-nghymru.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2017). **Teuluoedd yn Gyntaf: Canllawiau Rhaglen.** Cyrchwyd o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/teuluoedd-yn-gyntaf-canllawiau-i-awdurdodau-lleol.pdf>.

Llywodraeth Cymru. (2019). **Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol: Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.** Cyrchwyd o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/fframwaith-safonau-a-chanlyniadau-cenedlaethol-ar-gyfer-plant-a-phobl-ifanc-yng-nghymru.pdf>

Williams, A. et al. (2019). **The experiences and outcomes of children and young people from Wales receiving Secure Accommodation Orders.** Cyrchwyd o: <http://orca.cf.ac.uk/125523/1/The-experiences-and-outcomes-of-children-and-young-people-from-Wales-receiving-Secure-Accommodation-Orders.pdf>

Wilson, S. a Milne, E. J. (2013). **Young People Creating Belonging: Spaces, Sounds and Sights.** Cyrchwyd o: <https://www.researchunbound.org.uk/young-people-creating-belonging/>

# Atodiad 1

**Tabl 1: Ymdrechion diweddar i gofnodi barn plant a phobl ifanc**

<b>Awdur</b>	<b>Astudiaeth</b>	<b>Crynodeb</b>
Ofsted	Holiaduron Gofal Cymdeithasol i Blant (Blynyddol)	Holiadur blynyddol sy'n cofnodi barn plant a phobl ifanc am leoliadau gofal cymdeithasol gan gynnwys mabwysiadu, gofal maeth, cartrefi preswyl ac ysgolion preswyl. Ymatebodd 26,546 o blant a phobl ifanc i arolwg 2018.
Staines a Selwyn	The impact of plant a phobl ifanc's lack of understanding of why they are in out-of-home care on their well-being and felt security (2020)	Astudiaeth sy'n defnyddio data o'r Bright Spots Survey sy'n edrych ar beth yw effaith peidio â deall y rhesymau am fynediad i ofal ar lesiant a theimladau o gael eu cartrefu.
Comisiynydd Plant Lloegr	Children's experience of instability in the care system (2019)	Ochr yn ochr â dadansoddiad o ddata ar sefydlogrwydd lleoliadau, cyfwelodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant 22 o blant a oedd mewn gofal neu a oedd yn gadael gofal i edrych ar effaith ansefydlogrwydd ar hyn sy'n ei gwneud yn haws neu'n anos i ddelio ag ansefydlogrwydd.
Girling	Yet Another Change: The Experience of Movement for Children and Young People Looked After (2019)	Astudiaeth sy'n ystyried sut mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn profi symud. Roedd yr ymchwili yn cynnwys cyfweiliadau lled-strwythuredig â saith o bobl ifanc (15-17 oed) mewn cartrefi preswyl preifat yng Nghymru.
Stabler et al.	What do children think about their social worker? A Q-method study of children's services (2019)	Astudiaeth dull-Q yn edrych sut mae plant sy'n gysylltiedig â gwasanaethau yn gweld eu cysylltiadau â gweithwyr cymdeithasol. Gofynnwyd i 22 o blant ddi-doli a sgorio datganiadau am eu gweithiwr cymdeithasol ac i egluro ei sgoriau.
Williams et al.	The experiences and outcomes of plant a phobl ifanc from Wales receiving Secure	Edrychwyd ar brofiadau pobl ifanc yng Nghymru a oedd yn destun gorchymyn llety diogel rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018. Mae'n cynnwys cyfweiliadau ag 11 o bobl ifanc yn y garfan hon.

Accommodation Orders (2019)		
Selwyn et al. (Coram Voice)	Bright Spots (2017-2019)	Defnyddiwyd holiaduron oedran briodol i gyfweld plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal mewn awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, i ganfod a hyrwyddo arferion sy'n cael dylanwad positif ar lesiant plant a phobl ifanc.
McDowell et al.	Contact with Birth Parents: Hearing the Voices of the Looked After Child (2019)	Astudiaeth a oedd yn edrych ar effaith cyswllt â rhieni biolegol ar bobl ifanc sy'n derbyn gofal. Cynhaliwyd cyfweiliadau â saith o bobl ifanc, gan edrych ar eu profiad o gyswllt.
Comisiynydd Plant Lloegr	Voice of Children in Foster Care (2018)	Cyflwyno ymatebion 100 o blant sy'n byw mewn gofal maeth neu sy'n gadael gofal am eu barn a'u profiadau o ofal maeth a'r newidiadau maent yn credu ddylai gael eu gwneud i'r system faethu i wella'r profiad o ofal.
Department for Education	Narey a Owers (2018)	Cymerodd plant a rhai sy'n gadael gofal ran yn yr adolygiad annibynnol hwn o ofal maeth yn Lloegr, sy'n cynnwys argymhellion i wella'r system faethu i blant a gofawyr maeth.
Diaz et al.	'Just another person in the room': young people's views on their participation in Child in Care Reviews (2018)	Canfyddiadau cyfweiliadau manwl ag 11 o bobl ifanc am eu profiadau o Adolygiadau Plentyn mewn Gofal. Cynhaliwyd gwaith maes mewn awdurdod lleol mawr yn Lloegr.
Family Rights Group	Care Crisis Review: options for change (2018)	Ymgynghoriad â dros 80 o blant a phobl ifanc (9-27 oed) o 10 ardal wahanol yn Lloegr. Cymerodd y plant a phobl ifanc ran mewn grwpiau ffocws a gynhaliwyd mewn amrywiaeth o fformatau i ddiwallu gwahanol anghenion a chyd-destunau.
Hammond	Social Media, Social Capital and Adolescents Living in State Care: A Multi-Perspective and Multi-Method Qualitative Study (2018)	Astudiaeth sy'n edrych sut mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn defnyddio cyfryngau digidol. Roedd yr ymchwil yn cynnwys gwaith maes ethnograffig a gynhaliwyd mewn pedwar cartref gofal preswyl gyda 10 o bobl ifanc.

Mannay et al	Enabling talk and reframing messages: working creatively with care experienced children and Young people to recount and re-represent their everyday experiences (2018)	Astudiaeth ansoddol ar brofiadau addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Cymerodd 67 o blant a phobl ifanc (rhwng 6 a 27 oed) ran, gan ddefnyddio ystod o ddulliau creadigol fel defnyddio sticeri sy'n cynrychioli emosiynau gwahanol i greu map meddwl o'u profiad o'r ysgol.
Comisiynydd Plant Cymru	Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru (2016)	Cyflwyno canfyddiadau cyfweiliadau a grwpiau ffocws â 34 o bobl ifanc â phrofiad o ofal preswyl yng Nghymru. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys cael eu cynnwys mewn prosesau penderfynu, mesurau diogelwch a darpariaeth ddigonol mewn gofal preswyl.
Roesch-Marsh et al.	Nurturing the virtuous cycle: Looked After Children's participation in reviews, a cyclical and relational process (2016)	Adroddiad ar ganfyddiadau arolwg o weithwyr cymdeithasol, IROau a phobl ifanc a gynhaliwyd ar ôl cyfarfodydd adolygu. Roedd yr ymchwil hefyd yn cynnwys cyfweiliadau dilynol â 10 o bobl ifanc.
Comisiynydd Plant Lloegr	Children in Care and Care Leavers Survey (2015)	Arolwg o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn Lloegr a gafodd 2936 o ymatebion gan blant a phobl ifanc mewn gofal yn ogystal â rhai sy'n gadael gofal.
Yr Ymchwiliad Gofal	The views and recommendations of plant a phobl ifanc involved in the Care Inquiry (2013)	Canfyddiadau ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fel rhan o Ymchwiliad Gofal 2013. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar ffurf grwpiau ffocws a chyfweiliadau yn Hounslow a Torbay yn ogystal ag arolwg ar-lein. Nid yw nifer y cyfranogwyd yn hysbys.
Wilson a Milne	Young people creating belonging: creative sensory methods to explore how young people who are looked after feel that they belong (2013)	Astudiaeth sy'n defnyddio dulliau ansoddol i edrych sut mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn yr Alban yn profi ymdeimlad o berthyn. Tynnodd y cyfranogwyr ffotograffau o'u heiddo a'u hamgylchedd a buont yn cymryd rhan mewn prosiectau creadigol eraill fel creu rhestrau caneuon a fideos. Cymerodd 22 o blant a phobl

ifanc sydd â phrofiad o ofal (rhwng 10 a 23 oed) ran.

---

Berridge et al.	Living in Children's Residential Homes (2012)	Adroddiad ar gartrefi preswyl yn Lloegr, gan gynnwys canfyddiadau ar nodweddion, amgylchiadau a phrofiadau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn 16 o gartrefi preswyl.
Comisiynydd Plant Cymru	Lleisiau Coll: Adolygiad o'r eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen yng Nghymru (2012)	Adolygiad o wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Cwblhaodd 457 o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen arolwg a chymerodd dros 100 o blant ran mewn grwpiau ffocws.
Edwards, J.	Looked after care: Young people's views of making decisions in review and planning meetings (2012)	Edrych ar brofiadau pobl ifanc o gyfarfodydd adolygu, gan gynnwys cyfweiliadau â 12 o bobl ifanc rhwng 15 a 19 oed.
Cossar et al.	'Don't make assumptions': Children's and young people's views of the children protection system and messages for change (2011)	Astudiaeth ansoddol a oedd yn holi barn plant a phobl ifanc sy'n byw â'u rhieni, a oedd yn destun cynllun amddiffyn plant. Cynhaliwyd cyfweiliadau â 26 o blant a phobl ifanc rhwng chwech a 17 oed.
Comisiynydd Plant Cymru	Ar Goll ar ôl Gofal (2011)	Prosiect ymchwil sy'n edrych ar brofiadau plant a phobl ifanc o gynllunio i adael gofal. Bu'r Comisiynydd mewn cysylltiad â bron i 120 o blant a phobl ifanc mewn cartrefi preswyl a gofal maeth a rhai sy'n gadael gofal.

---



Rostill-Brookes et al	A shared experience of fragmentation: making sense of foster care placement breakdown (2011)	Astudiaeth yn ystyried sut yr oedd pobl ifanc, gofaluwr maeth a gweithwyr cymdeithasol yn gwneud synnwyr o derfynu lleoliadau gofal maeth heb gynllunio. Cynhaliodd yr ymchwilyr bum cyfweiliad â phobl ifanc.
Holland et al.	How was your day? Learning from experience: Informing preventative policies and practice by analysing critical moments in care leaver's life histories. (2010)	Astudiaeth sy'n cofnodi barn 16 o rai sy'n gadael gofal.
Ward, H.	Patterns of instability: Moves within the care system, their reasons, contexts and consequences (2009)	Astudiaeth yn edrych ar symudiadau 242 o blant mewn gofal mewn chwe awdurdod lleol yn Lloegr. Cynhaliwyd cyfweiliadau â phlant a phobl ifanc i ategu'r dadansoddiad o ddata gweinyddol.



# Atodiad 2

**Tabl 2: Ymdrechion diweddar i gofnodi barn rhieni biolegol**

<b>Awdur</b>	<b>Astudiaeth</b>	<b>Crynodeb</b>
Burch et al.	Research on the number of children in Wales placed into care from parents with learning disability and the reasons behind their removal (2019)	Astudiaeth sy'n edrych ar gyfraddau gofal i blant rhieni ag anabledd dysgu. Roedd yr ymchwil yn cynnwys cyfweiliadau ag wyth o rieni mewn pum awdurdod lleol yng Nghymru.
Pye a Rees	Factors that promote positive supervised birth family contact for children in care (2019)	Astudiaeth dull cymysg o brofiadau o gyswllt gyda gwaith maes yn cael ei wneud yn Ne Cymru. Cynhaliwyd arolwg o 38 o aelodau teuluoedd biolegol a chyfweiliadau dilynol ag 17 o aelodau teuluoedd.
Roberts	A family of my own: When young people in and leaving state care become parents in Wales (2019)	Adroddiad ar ganfyddiadau cynnar o ymchwil ar brofiadau o fagu plant ymhlith pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'n cynnwys canlyniadau cyfweiliadau ansoddol ag 8 o rieni yn ogystal â gweithwyr proffesiynol gadael gofal.
Munro et al.	Re-imagining social care services in co-production with disabled parents (2018)	Edrych ar brofiadau rhieni anabl sydd wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol i blant. Cafodd 6 o rieni anabl eu cyfweild am eu cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol.
Percy-Smith, B. and Dalrymple, J.	Stories from journeys to the edge of care: Challenges for children and family services (2018)	Edrych ar brofiadau plant a phobl ifanc sydd neu wedi bod ar 'ymylon gofal'. Mae'n cynnwys rhai cyfweiliadau â rhieni'r plant hyn (ond nid dyna yw prif bwyslais y papur).
Morris et al.	Family experiences of children's social care involvement following a social work change programme (2017)	Adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau cyfweiliadau â 36 o aelodau teuluoedd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fel rhan o werthusiad o raglen newid gwaith cymdeithasol. Roedd y cyfweiliadau'n canolbwyntio'n bennaf ar berthynas teuluoedd â gweithwyr cymdeithasol.

Lynch, C. (Family Rights Group)	Young parents' involvement in the child welfare system (2016)	Cyflwyno canfyddiadau cyfweiliadau a grwpiau ffocws â rhieni ifanc (hyd at 30 oed) y mae eu plant ar hyn o bryd neu wedi bod yn destun ymyriad gan wasanaethau plant.
Larkins et al.	Children's, young people's and parents' perspectives on contact: Findings from the evaluation of social work practices (2015)	Adroddiad ar ganfyddiadau cyfweiliadau â phlant, pobl ifanc a rhieni biolegol a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad cenedlaethol o gynlluniau peilot Ymarfer Gwaith Cymdeithasol. Cynhaliwyd cyfweiliadau â 19 o rieni biolegol, er bod pwyslais y papur ar farn plant a phobl ifanc.
Neil et al.	Helping birth families: service, costs and outcomes (2010)	Edrych ar brofiadau rhieni biolegol o fabwysiadu a'r cymorth maent yn ei gael, ac adroddwyd ar ganfyddiadau cyfweiliadau â 73 o berthnasau biolegol, gan gynnwys mamau, tadau a neiniau a theidiau.

## Manylion am yr Awduron

Mae **Megan Park** yn Brentis Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Suzanna Nesom** yn gyn Brentis Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Helen Hodges** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae wedi secondio ar hyn o bryd i'r Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

[info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)

**OGL** This report is licensed under the terms of the Open Government License